

# Matiau Iaith - Y Cyfnod Sylfaen

## Cynllun Colegau Cymru

# Cynnwys


| | Tud |
|---|---|
| Amser Cinio | 3 |
| Amser Cofrestru | 5 |
| Amser Snac | 7 |
| Byd Bach | 9 |
| Celf | 11 |
| Cerdd | 13 |
| Chwarae Gemau | 15 |
| Chwarae Rôl | 17 |
| Crefft | 19 |
| Cyn Ysgrifennu | 21 |

| | Tud |
|---|---|
| Dŵr | 23 |
| Iaith darllen a thrafod llyfr | 25 |
| Pobl sy’n ein helpu | 27 |
| Rhif | 29 |
| Siâp | 31 |
| Symud | 33 |
| TGCh | 35 |
| Tywod | 37 |
| Yn yr ardd | 39 |
| Yn yr awyr agored | 41 |

# Y Cyfnod Sylfaen:

# Amser Cinio



## Geirfa — Vocabulary

| Bwyd (g) | Food |
|---|---|
| bresych | cabbage |
| cig (g) | meat |
| corn | sweetcorn |
| ffa pob | baked beans |
| ffrwyth (g) / au | fruit |
| grefi (g) | gravy |
| hufen iâ (g) | ice cream |
| iogwrt (g) | yoghurt |
| llysiau | vegetables |
| moron | carrots |
| pwdin (g) | pudding |
| pys | peas |
| pysgod | fish |
| tatws | potatoes |

| Diod (b) / ydd | Drink / s |
|---|---|
| dŵr (g) | water |
| llaeth (g) | milk |
| sudd (g) | juice |

| | |
|---|---|
| cyllell (b) | knife |
| fforc (b) | fork |
| llwy (b) | spoon |
| plât (g) | plate |

| | |
|---|---|
| dwylo i fyny (NW) | hands up |
| dwylo lan (SW) | hands up |

| Berfau | Verbs |
|---|---|
| bwyta | to eat |
| eisiau | to want / need |
| golchi | to wash |
| helpu | to help |
| hoffi | to like |
| rhannu | to share |
| sychu | to dry |
| tacluso | to tidy up |
| torri | to cut |
| yfed | to drink |

| Paratoi | Preparation |
|---|---|
| Mae'n amser cinio. | It's dinner time. |
| Pwy sy'n cael cinio? | Who's having dinner? |
| Pwy sy'n cael brechdanau heddiw? | Who's having sandwiches today? |
| Sawl un sy'n cael brechdanau? Cyfrwch gyda / efo fi. | How many are having sandwiches? Count with me. |
| Rhaid tacluso. | (You) must tidy up. |
| Rhaid golchi dwylo. | (You) must wash (your) hands. |
| Wyt ti wedi tacluso? Ydw / Nac ydw | Have you tidied up? Yes / No |
| Ewch i olchi eich dwylo. | Go and wash your hands. |
| Pwy sy eisiau mynd i'r tŷ bach? | Who wants to go to the toilet? |
| Ga i fynd i'r tŷ bach? Cei, wrth gwrs. | May I go to the toilet? Yes of course. |
| Ble mae'r tywel? | Where is the towel? |
| Ydych chi wedi golchi eich dwylo? / Ydyn / Nac ydyn | Have you washed your hands? Yes / No |
| Wyt ti wedi sychu dy ddwylo? Ydw / Nac ydw | Have you dried your hands? Yes / No |

| Cael cinio | Having dinner |
|---|---|
| Pwy sy eisiau bresych?<br>Fi. Dw i eisiau bresych. | Who wants cabbage?<br>Me. I want cabbage. |
| Beth wyt ti eisiau?<br>Dw i eisiau ffa pob os gwelwch yn dda. | What do you want?<br>I want (some) baked beans please. |
| Wyt ti eisiau pwdin? Ydw / Nac ydw | Do you want pudding? Yes / No |
| Dw i ddim eisiau moron. | I don't want carrots. |
| Beth mae Huw eisiau ?<br>Mae e eisiau cig, tatws a grefi. | What does Huw want?<br>He wants meat, potatoes and gravy. |
| Beth wyt ti'n hoffi?<br>Dw i'n hoffi pys. Dw i ddim yn hoffi corn. | What do you like?<br>I like peas. I don't like sweetcorn. |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys



# Y Cyfnod Sylfaen: Amser Cinio

**Cân**
Tôn – London 's burning

Pwy sy'n llwgu?
Pwy sy'n llwgu?
Amser cinio,
Amser cinio,
Ewch i'r tŷ bach,
Golchi dwylo,
Amser cinio,
Amser cinio.

**Cân**
**Golchi Dwylo**
(Clementine)

Golchi dwylo, golchi dwylo,
Cofiwch gadw'r dwylo'n lân,
Golchi dwylo â dŵr a sebon,
Cofiwch gadw'r dwylo'n lân.

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Amser cinio. Rhaid mynd i'r tŷ bach a golchi dwylo! |
| P2 | Ydych chi wedi sychu eich dwylo? |
| Plant | Ydyn. |
| P1 | Sawl un sy'n cael brechdanau heddiw? Dwylo lan / i fyny. Cyfrwch gyda fi. |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar. |
| P2 | Pedwar. Mae pedwar yn cael brechdanau heddiw. |
| P1 | Da iawn, blant. |

**Cân**
**Dyma'r Ffordd i Olchi Dwylo**
(Here we go Round the Mulberry Bush)

Dyma'r ffordd i olchi dwylo,
I olchi dwylo, i olchi dwylo,
Dyma'r ffordd i olchi dwylo
A'u cadw nhw yn lân.

Dyma'r ffordd i sychu dwylo
I sychu dwylo, i sychu dwylo
Dyma'r ffordd i sychu dwylo
A'u cadw nhw yn lân.

**Cân**
**Amser Mynd i'r Tŷ Bach**
(Beth sy yn y fasged siopa?)

Pwy sy eisiau mynd i'r tŷ bach?
Mynd i'r tŷ bach, mynd i'r tŷ bach?
Pwy sy eisiau mynd i'r tŷ bach?
Mynd i'r tŷ bach nawr.

Pwy sy eisiau golchi/sychu dwylo?
Golchi/sychu dwylo, golchi/sychu dwylo?
Pwy sy eisiau golchi/sychu dwylo?
Golchi/sychu dwylo nawr.

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn 1 | Amser cinio. Ydych chi wedi golchi eich dwylo? |
| Plant | Ydyn. |
| Oedolyn 1 | Da iawn. Nawr / Rŵan, rhaid dweud gweddi. Dwylo gyda'i gilydd a llygaid ar gau. |
| Pawb | *Diolch i Ti am y byd,*<br>*Diolch am ein bwyd bob pryd,*<br>*Diolch am yr haul a'r glaw,*<br>*Diolch Dduw am bopeth ddaw.*<br>*Amen.* |
| Oedolyn 1 | Da iawn. Nawr / Rŵan, Pwy sy eisiau tatws? Dwylo i fyny / lan. |
| Oedolyn 2 | Tatws i John, tatws i Anwen, tatws i Ceri, tatws i Ifan. |
| Oedolyn 1 | Wyt ti'n hoffi tatws Alaw? |
| Alaw | Ydw. |
| Oedolyn 2 | Beth ydych chi eisiau i yfed? |
| Gruff | Dw i eisiau dŵr os gwelwch yn dda. |
| Emily | Dw i eisiau dŵr hefyd. |
| Oedolyn 2 | Dyma chi. Dŵr i ti Gruff a dŵr i ti hefyd Emily. |
| Plant | Diolch. |
| Oedolyn 2 | Wyt ti eisiau pwdin Wil? |
| Wil | Ydw. |
| Oedolyn 1 | Dyma ti Wil. Iogwrt ydy'r pwdin heddiw. |
| Plentyn | Diolch. Dw i'n hoffi iogwrt. |
| Oedolyn 2 | Da iawn. |

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Beth wyt ti eisiau? |
| P2 | Pysgod, tatws a moron. |
| P1 | Dyma ti. |
| P2 | Diolch. |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

# Amser Cofrestru

## Geirfa — Vocabulary

| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| absennol | *absent* |
| brechdanau | *sandwiches* |
| cinio | *dinner* |
| cyfrif | *to count* |
| ffrindiau | *friends* |
| pen-blwydd | *birthday* |
| yma | *here* |
| yn barod | *ready* |
| yn dost / yn sâl | *ill* |

## Paratoi — Preparation

| Paratoi | Preparation |
|---|---|
| Dewch i eistedd ar y mat. | *Come and sit on the mat.* |
| Eisteddwch ar y mat. | *Sit on the mat.* |
| Eisteddwch mewn cylch. | *Sit in a circle.* |
| Pawb yn barod? | *Everyone ready?* |
| Bore da, blant. | *Good morning children.* |
| Bore da, ffrindiau. | Good morning friends. |

## Gorchmynion — Commands

| Gorchmynion | Commands |
|---|---|
| Atebwch | *Answer* |
| Cyfrwch | *Count* |
| Dewch | *Come* |
| Eisteddwch | *Sit* |

## Iaith cofrestru — Registration language

| Iaith cofrestru | Registration language |
|---|---|
| Ble mae Cadi? | *Where is Cadi?* |
| Dyma fi. | *Here I am.* |
| Ble mae Hannah? | *Where is Hannah?* |
| Mae Hannah'n absennol. | *Hannah is absent.* |
| Ydy Hannah'n dost / sâl? Ydy / Nac ydy | *Is Hannah ill? Yes / No* |
| Ydy Ben yma? Ydy / Nac ydy | *Is Ben here? Yes / No* |
| Ydy Macs yn absennol? Ydy / Nac ydy | *Is Macs absent? Yes / No* |
| Pwy sy'n cael cinio? | *Who's having dinner?* |
| Pwy sy'n cael brechdanau? | *Who's having sandwiches?* |
| Faint sy'n cael cinio? | *How many are having dinner?* |
| Cyfrwch gyda fi / efo fi. | *Count with me.* |
| Un, dau, tri ... Mae deg yn cael cinio. | *One, two, three... Ten are having dinner.* |
| Wyt ti'n cael cinio heddiw Mair? | *Are you having dinner today Mair?* |
| Ydw / Nac ydw | *Yes / No* |
| Pwy sy'n cael pen-blwydd heddiw? Fi. | *Who's having a birthday today? Me.* |
| Rhaid canu 'Pen-blwydd hapus'. | *(We) must sing 'Pen-blwydd hapus'.* |
| Faint ydy dy oed di heddiw? | *How old are you today?* |
| Dw i'n chwech oed heddiw. | *I'm six (years old) today.* |

| | |
|---|---|
| Dwylo i fyny *(NW)* | *Hands up* |
| Dwylo lan *(SW)* | *Hands up* |
| Dyna drueni. | *That's a pity.* |
| Faint ydy oed...? | *How old is ...?* |

## Oed — Age

| Oed | Age |
|---|---|
| tair oed | *three (years old)* |
| pedair oed | *four (years old)* |
| pump oed | *five (years old)* |
| chwech oed | *six (years old)* |
| saith oed | *seven (years old)* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Amser Cofrestru

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Prynhawn da, blant. |
| Plant | Prynhawn da, Miss. Bore da, ffrindiau. |
| Oedolyn | Wayne? |
| Wayne | Yma. |
| Oedolyn | Osian? Ydy Osian yn absennol? |
| Plant | Nac ydy. |
| Oedolyn | Ble mae Osian? |
| Osian | Dyma fi! |

**Sgwrs 2 (fersiwn y gogledd)**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Amser cofrestru. Dewch i eistedd ar y mat.<br>Bore da, blant. |
| Plant | Bore da, Miss. Bore da, ffrindiau. |
| Oedolyn | Pwy sy'n cael cinio heddiw? Dwylo i fyny. Rŵan, cyfrwch efo fi. |
| Jac | Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith. |
| Oedolyn | Saith. Mae saith yn cael cinio heddiw.<br>Faint sy'n cael brechdanau? Dwylo i fyny. Cyfrwch efo fi eto. |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| Oedolyn | Pump. Da iawn. Mae pump yn cael brechdanau heddiw. |

**Sgwrs 2 (fersiwn y de)**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Amser cofrestru. Dewch i eistedd ar y mat.<br>Bore da, blant. |
| Plant | Bore da, Miss. Bore da, ffrindiau. |
| Oedolyn | Pwy sy'n cael cinio heddiw? Dwylo lan. Nawr, cyfrwch 'da fi. |
| Jac | Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith. |
| Oedolyn | Saith. Mae saith yn cael cinio heddiw.<br>Faint sy'n cael brechdanau. Dwylo lan. Cyfrwch 'da fi eto. |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| Oedolyn | Pump. Da iawn. Mae pump yn cael brechdanau heddiw. |

**Pen-blwydd hapus**

Pen-blwydd hapus i ti,
Pen-blwydd hapus i ti,
Pen-blwydd hapus i Catrin,
Pen-blwydd hapus i ti.

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Amser cofrestru. Eisteddwch mewn cylch ar y mat. Ydy pawb yn barod? |
| Plant | Yn barod. |
| Oedolyn | Gwyn? |
| Gwyn | Yma, Miss. |
| Oedolyn | Ann? |
| Ann | Yma, Miss. |
| Oedolyn | Abi? |
| Plant | Absennol, Miss. |
| Oedolyn | Ydy Abi'n sâl? |
| Plant | Ydy, Miss. |
| Oedolyn | Dyna drueni. Ewan? |
| Ewan | Yma, Miss. |
| Oedolyn | Pwy sy'n cael pen-blwydd heddiw? |
| Plant | Ewan. |
| Oedolyn | Ie, Ewan. Faint ydy dy oed di Ewan? |
| Ewan | Pedair. |
| Oedolyn | Rhaid canu pen-blwydd hapus i Ewan. Pawb yn barod? |
| Pawb | Pen-blwydd hapus i ti, Pen-blwydd hapus i ti,<br>Pen-blwydd hapus i Ewan, Pen-blwydd hapus i ti. |

**Bore da, ffrindiau**
(Tôn: Skip to my Loo)
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Rydyn ni'n dda iawn, diolch.

**Dewch i eistedd ar y mat –**
(Tôn: London Bridge is falling down)
Dewch i eistedd ar y mat,
Ar y mat, ar y mat,
Dewch i eistedd ar y mat
I ddweud ' Bore da.'

Dewch i eistedd ar y mat,
Ar y mat, ar y mat,
Dewch i eistedd ar y mat
I ddweud ' Prynhawn da.'

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Amser Snac



**Geirfa** *Vocabulary*



| **Ffrwyth (g) / au** | ***Fruit*** |
|---|---|
| afal (g) /au | *apple / s* |
| banana (b) /s | *banana / s* |
| grawnwin | *grapes* |
| mefus | *strawberries* |
| melon (g) | *melon* |
| oren (g) /nau | *orange / s* |
| peren (b) | *pear / s* |

| **Diod (b) / ydd** | ***Drink / s*** |
|---|---|
| dŵr (g) | *water* |
| llaeth (g) | *milk* |
| sudd (g) | *juice* |

| | |
|---|---|
| bisgedi | *biscuit /s* |
| cacen siocled (b) | *chocolate cake* |
| creision | *crisps* |
| tost (g) | *toast* |

| | |
|---|---|
| blasus | *tasty* |
| cyllell (b) | *knife* |
| darn | *piece* |
| hanner | *half* |
| iogwrt (g) | *yoghurt* |
| jam (g) | *jam* |
| llwy (b) | *spoon* |
| menyn (g) | *butter* |
| plât (g) | *plate* |
| trît (g) | *treat* |

| **Berfau** | ***Verbs*** |
|---|---|
| bwyta | *to eat* |
| eisiau | *to want / need* |
| golchi | *to wash* |
| helpu | *to help* |
| hoffi | *to like* |
| rhannu | *to share* |
| torri | *to cut* |
| yfed | *to drink* |

| **Paratoi** | ***Preparation*** |
|---|---|
| Rhaid tacluso. | *(You) must tidy up.* |
| Rhaid golchi dwylo. | *(You) must wash (your) hands.* |
| Wyt ti wedi tacluso? | *Have you tidied up?* |
| Ydw / Nac ydw | *Yes / No* |
| Ydych chi wedi golchi eich dwylo? | *Have you washed your hands?* |
| Ydyn / Nac ydyn | *Yes / No* |
| Ewch i olchi eich dwylo. | *Go and wash your hands.* |
| Pwy sy'n helpu heddiw? Fi. | *Who's helping today? Me.* |
| Pwy ydy helpwr heddiw? Tom. | *Who is 'helpwr heddiw?' Tom.* |

| **Cael snac** | ***Having a snack*** |
|---|---|
| Pwy sy' eisiau afal? | *Who wants an apple?* |
| Fi. Dw i eisiau afal. | *Me. I want an apple.* |
| Beth wyt ti eisiau? | *What do you want?* |
| Dw i eisiau grawnwin os gwelwch yn dda. | *I want (some) grapes please.* |
| Wyt ti eisiau iogwrt? Ydw / Nac ydw | *Do you want a yoghurt? Yes / No* |
| Dw i ddim eisiau creision. | *I don't want crisps.* |
| Beth mae Huw eisiau ? | *What does Huw want?* |
| Mae e eisiau oren. | *He wants an orange.* |
| Beth wyt ti'n hoffi? | *What do you like?* |
| Dw i'n hoffi sudd. Dw i ddim yn hoffi llaeth. | *I like juice. I don't like milk.* |
| Wyt ti'n hoffi melon? Ydw / Nac Ydw | *Do you like melon? Yes / No* |
| Dyma ti. | *Here you are.* |
| Diolch yn fawr. | *Thank you very much.* |
| Mmm, mae'n flasus. | *Mmm, it's tasty.* |
| Mae'r afal yn neis. | *The apple is nice.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Amser Snac

**Cân** (Tôn – London bridge is falling down)

Dewch i fwyta ffrwythau ffres,
Ffrwythau ffres, ffrwythau ffres
Dewch i fwyta ffrwythau ffres,
Dewch i fwyta.




**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Beth wyt ti eisiau? |
| P2 | Melon. |
| P1 | Dyma ti. |
| P2 | Diolch. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Amser snac! |
| Plant | Hwrê! |
| P1 | Ewch i olchi eich dwylo. Rhaid golchi a sychu'r dwylo. Nawr te, pwy sy eisiau iogwrt? |
| P2 | Fi. |
| P1 | Pa flas? |
| P2 | Mefus a banana os gwelwch yn dda. |
| P1 | Mmm, blasus iawn. Dw i'n hoffi iogwrt mefus a banana hefyd. |

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Amser snac. Ydych chi wedi golchi eich dwylo? |
| Plant | Ydyn. |
| Oedolyn | Da iawn. Nawr, beth ydych chi eisiau? John, beth wyt ti eisiau? |
| Plentyn | Afal os gwelwch yn dda. |
| Oedolyn | Iawn, rhaid torri'r afal. Hanner afal i ti a hanner afal i Cai. Dyma chi, blant. |
| Plant | Diolch yn fawr. |
| Oedolyn | Beth ydych chi eisiau i yfed? |
| Plentyn | Dw i eisiau llaeth os gwelwch yn dda. |
| Plentyn | Dw i eisiau llaeth hefyd. |
| Oedolyn | Dyma chi. Llaeth i ti John a llaeth i ti hefyd Cai. |
| Plant | Diolch. |
| Oedolyn | Ydy'r afal yn flasus? |
| Plentyn | Ydy, mae'r afal yn flasus. |
| Oedolyn | Ydy'r llaeth yn neis hefyd? |
| Plentyn | Ydy. |
| Oedolyn | Da iawn, blant. |

( llaeth = llefrith yn y gogledd-NW)



# Y Cyfnod Sylfaen:

# Byd bach





## Geirfa — *Vocabulary*

| | Geirfa | *Vocabulary* |
|---|---|---|
|  | bwrdd (g) | *table* |
|  | car (g) / ceir | *car / s* |
|  | cledrau | *rails* |
|  | darn (g) / au | *piece / s* |
|  | jig-so (g) | *jig-saw* |
|  | ochr syth | *straight side* |
|  | toes (g) | *dough* |
|  | tractor (g) | *tractor* |
|  | trên (g) / trenau | *train / s* |
| | tŷ dol (g) | *doll's house* |

| | |
|---|---|
| ymlaen | *forward* |
| yn ôl | *backward* |
| hwn (g) | *this* |
| hon (b) | *this* |
| rhain | *these* |

| **Berfau** | ***Verbs*** |
|---|---|
| adeiladu | *to build* |
| cysylltu | *to link* |
| chwarae | *to play* |
| defnyddio | *to use* |
| edrych | to look |
| gwisgo | *to wear* |
| gwneud te | *to make tea* |
| rhoi bath | *to give a bath* |
| symud | *to move* |
| tacluso | *to tidy up* |
| wedi gorffen | *finished* |

| **Paratoi** | ***Preparation*** |
|---|---|
| Pwy sy eisiau chwarae yn y tŷ dol? | *Who wants to play in the doll's house?* |
| Wyt ti eisiau chwarae Lego? | *Do you want to play Lego?* |
| Ydych chi eisiau chwarae gyda'r / efo'r ceir bach? | *Do you want to play with the small cars?* |
| Ble mae'r toes?<br>Ar y bwrdd. | *Where's the dough?*<br>*On the table.* |

| **Offer** | ***Equipment*** |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Tractor. | *What's this? A tractor.* |
| Beth sy yn y bocs? | *What's in the box?* |
| Ble mae'r jig-so? | *Where's the jig-saw?* |

| **Iaith chwarae** | ***Language of play*** |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud?<br>Dw i'n gwneud te i Tedi. | *What are you doing?*<br>*I'm making tea for Teddy.* |
| Beth ydych chi'n wneud?<br>Rydyn ni'n rhoi bath i doli. | *What are you doing?*<br>*We're giving dolly a bath.* |
| Dw i'n gwneud gwely i doli.<br>Beth wyt ti'n ddefnyddio?<br>Duplo. | *I'm making a bed for dolly.*<br>*What are you using?*<br>*Duplo.* |
| Beth mae Elin yn wneud?<br>Mae hi'n adeiladu garej i'r tractor. | *What is Elin doing?*<br>*She's building a garage for the tractor.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Byd bach



**Sgwrs 1**

P1 Beth wyt ti'n wneud?
P2 Dw i'n gwisgo doli.
P1 Beth mae doli'n wisgo heddiw?
P2 Trowsus a siwmper.
P1 Pa liw ydy'r trowsus?
P2 Brown.
P1 Da iawn.




**Sgwrs 2**

P1 Beth wyt ti'n wneud?
P2 Dw i'n gwneud dyn.
P1 Pam?
P2 Dw i eisiau rhoi dyn yn y lori.
P1 Beth wyt ti'n ddefnyddio?
P2 Toes.
P1 Pa liw ydy'r toes?
P2 Glas.
P1 Da iawn. Sawl dyn sy yn y lori nawr?
P2 Tri.
P1 Da iawn. Mae tri dyn yn y lori.




**Sgwrs 3**

P1 Ydych chi eisiau gwneud jig-so?
Plant Ydyn!
P1 Edrychwch ar y bocs. Beth sy ar y bocs?
P2 Llun.
P1 Llun beth?
P2 Llun plant ar lan y môr.
P1 Da iawn. Teleri, agor y bocs. Beth sy yn y bocs?
P2 Jig-so.
P1 Ie, jig-so. Sawl darn sy yn y bocs?
P2 Un , dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg.
P1 Da iawn. Deg darn. Pwy sy'n gallu gweld darn 'da / efo ochr syth?
P2 Fi!
P1 Edrychwch. Dyma ochr syth. Pa liw sy ar y darn?
P2 Glas.
P1 Ie, glas y môr. Oes ochr syth arall?
P2 Oes. Dyma fe.
P1 Ie, ydy'r darnau ochr syth yn ffitio?
P2 Ydyn ....
P1 Dyna ni. Mae'r jig-so wedi gorffen. Edrychwch ar y llun eto. Wyt ti'n hoffi'r llun Tom?
P2 Ydw.
P1 Pam?
P2 Achos dw i'n hoffi mynd i lan y môr.
P1 Da iawn. Amser tacluso nawr.

# Y Cyfnod Sylfaen:
## Celf



| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| brat (g) / iau NW | *apron / s* |
| brws paent (g) / brwsys paent | *paint brush / es* |
| cerdyn (g) / cardiau | *card* |
| creon (g) / au | *crayon / s* |
| dŵr (g) | *water* |
| ffedog (b) / au SW | *apron* |
| glud (g) | *glue* |
| gwlân (g) | *wool* |
| igam-ogam | *zigzag* |
| llawes (b) / llewys | *sleeve / s* |
| lliw (g) / iau | *colour / s* |
| paent (g) | *paint / s* |
| papur (g) / au | *paper / s* |
| patrwm (g) / patrymau | *pattern / s* |
| pensil lliw (g) / pensiliau lliw | *coloured pencil / s* |
| pot paent (g) / potiau paent | *paint pot / s* |
| siâp (g) / siapiau | *shape / s* |
| sinc | *sink* |
| spwng | *sponge* |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| cymysgu | *to mix* |
| defnyddio | *to use* |
| gwneud | *to do / make* |
| peintio | *to paint* |
| peintio bysedd | *to finger paint* |
| tacluso | *to tidy up* |
| tynnu llun | *to draw a picture* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Ydych chi eisiau tynnu llun? | *Do you want to draw a picture?* |
| Pwy sy eisiau peintio? | *Who wants to paint?* |
| Rhaid codi llewys. | *(You) must push (your) sleeves up.* |
| Rhaid gwisgo brat. | *(You) must wear an apron.* |
| Gwisgwch ffedog. | *Wear an apron.* |

| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Spwng ydy e / o. | *What's this? It's a sponge.* |
| Ble mae'r creonau? | *Where are the crayons?* |
| Maen nhw ar y silff. | *They're on the shelf.* |
| Dyma'r papur. | *Here's the paper.* |
| Ydy'r brws yn y sinc? Ydy / Nac ydy | *Is the brush in the sink? Yes / No* |
| Ga i'r pot paent os gwelwch yn dda? | *May I have the paint pot please?* |
| Cei. | *Yes.* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n tynnu llun. | *I'm drawing a picture.* |
| Llun beth? | *A picture of what?* |
| Beth ydych chi'n wneud? | *What are you doing?* |
| Rydyn ni'n gwneud patrwm. | *We're making a pattern.* |
| Beth ydy'r patrwm? | *What's the pattern?* |
| Cymysgwch y paent gwyn a'r paent coch. | *Mix the white paint and the red paint.* |
| Pa liw nawr? Pinc! | *Which colour now? Pink!* |
| Rhowch y brws yn y paent pinc. | *Put the brush in the pink paint.* |
| Gwnewch batrwm igam-ogam. | *Make a zigzag pattern.* |
| Dw i eisiau gwneud blodyn. | *I want to make a flower.* |
| Wyt ti eisiau peintio bysedd? | *Do you want to do finger painting?* |
| Ydw, dw i eisiau peintio bysedd. | *Yes, I want to do finger painting.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Celf

**Cân** (Tôn: London Bridge is falling down)

Dewch i beintio gyda ni, gyda ni, gyda ni / efo ni
Dewch i beintio gyda ni.
Dewch i beintio.

**Sgwrs 1**
**Tynnu llun**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth wyt ti'n wneud? |
| Plentyn | Dw i'n gwneud llun. |
| Oedolyn | Beth wyt ti'n ddefnyddio? |
| Plentyn | Creonau. |
| Oedolyn | Pa liw ydy'r creonau? |
| Plentyn | Coch, du, gwyrdd, glas. |
| Oedolyn | Da iawn. Beth sy yn y llun? |
| Plentyn | Mae Mam a Dad yn y llun. |

**Sgwrs 2**
**Peintio bysedd**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth wyt ti eisiau wneud? |
| Plentyn | Dw i eisiau peintio bysedd. |
| Oedolyn | Iawn. Llewys i fyny! Ble mae'r papur? |
| Plentyn | Dyma fe / fo. |
| Oedolyn | Pa liw paent ydy hwn? |
| Plentyn | Gwyrdd. Dw i eisiau gwneud dail i'r coed. |
| Oedolyn | Da iawn. Beth sy yn y llun? |
| Plentyn | Coed a blodau. |

**Sgwrs 3**
**Gwneud patrwm**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth ydy hwn? |
| Plentyn | Patrwm. |
| Oedolyn | Beth ydy'r patrwm? |
| Plentyn | Igam-ogam. |
| Oedolyn | Da iawn. Pa liw ydy'r patrwm? |
| Plentyn | Coch, glas a melyn. |
| Oedolyn | Wyt ti eisiau cymysgu'r paent glas a melyn? |
| Plentyn | Ydw. |
| Oedolyn | Pa liw nawr? |
| Plentyn | Gwyrdd! |
| Oedolyn | Da iawn. Mae glas a melyn yn gwneud gwyrdd. Pa liwiau sy yn y patrwm nawr? |
| Plentyn | Coch, glas, melyn a gwyrdd. |
| Oedolyn | Ie, da iawn. |



# Y Cyfnod Sylfaen:

## Cerdd



### Geirfa — *Vocabulary*

| **Offerynnau** | ***Instruments*** |
|---|---|
| castanét (g) / castanetau | *castanet / s* |
|  cloch / clychau | *bell / s* |
|  drwm (g) / drymiau | *drum / s* |
|  recorder | *recorder* |
|  seiloffon (g) | *xylophone* |
| symbal (g) /au | *cymbal / s* |
|  tambwrîn (g) | *tambourine* |
|  triongl (g) | *triangle* |

| **Berfau** | |
|---|---|
| canu | *to sing* |
| cyfansoddi | *to compose* |
| cyfrif | *to count* |
| cynllunio | *to plan* |
| chwarae | *to play* |
| chwythu | *to blow* |
| gwrando ar | *to listen to* |
| perfformio | *to peform* |
| plycio | *to pluck* |
| taro | *to hit / beat* |
| ysgwyd | *to shake* |

| **Disgrifio** | ***Describing*** |
|---|---|
| araf | *slow* |
| byr | *short* |
| cryf | *loud* |
| cyflym | *fast* |
| hir | *long* |
| isel | *low* |
| tawel | *quiet* |
| uchel | *high* |
| ysgafn | *light* |

| | |
|---|---|
| alaw (b) /on | *melody / melodies* |
| cân / caneuon | *song / s* |
| cerddoriaeth (b) | *music* |
| curiad (g) / au | *beat / s* |
| darn (g) /au | *piece / s* |
| i fyny | *up* |
| i lawr | *down* |
| llais (g) / lleisiau | *voice / s* |
| nodyn (g) / nodau | *note / s* |
| rhythm (g) / au | *rhythm* |
| un ar y tro | *one at a time* |

| **Paratoi** | ***Preparation*** |
|---|---|
| Pwy sy eisiau canu? | *Who wants to sing?* |
| Wyt ti eisiau chwarae offeryn? | *Do you want to play an instrument?* |
| Ydw / Nac ydw | *Yes / No* |
| Ydych chi eisiau chwarae'r drwm? | *Do you want to play the drum?* |
| Ble mae'r triongl? | *Where is the triangle?* |
| Mae'r triongl yn y bocs. | *The triangle is in the box.* |

| **Offer** | ***Equipment / Instruments*** |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Tambwrîn ydy e / o. | *What's this? It's a tambourine.* |
| Ble mae'r clychau? | *Where are the bells?* |
| Sawl triongl sy yn y bocs? | *How many triangles are in the box?* |
| Dyma'r castanetau. | *Here are the castanets.* |

| **Iaith chwarae** | ***Language of play*** |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n taro'r drwm. | *I'm beating the drum.* |
| Beth ydych chi'n wneud? | *What are you doing?* |
| Rydyn ni'n gwrando ar y gerddoriaeth. | *We're listening to the music.* |
| Ydy'r gerddoriaeth yn dawel? | *Is the music quiet?* |
| Ydy / Nac ydy | *Yes / No* |
| Gwrandewch ar y gerddoriaeth. | *Listen to the music.* |
| Oes symbalau yn y darn? | *Are there cymbals in the piece?* |
| Oes / Nac oes | *Yes / No* |
| Wyt ti'n chwarae'r tambwrîn yn gryf? | *Are you playing the tambourine loudly?* |
| Nac ydw, dw i'n chwarae'r tambwrîn yn dawel. | *No, I'm playing the tambourine quietly.* |
| Oes sŵn cryf 'da'r symbalau? | Have the cymbals got a loud noise? |
| Oes / Nac oes | Yes / No |
| Oes gan y symbalau sŵn cryf? | Have the cymbals got a loud noise? |
| Oes / Nac oes | Yes / No |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Cerdd

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth wyt ti'n wneud? |
| Plentyn | Taro'r drwm. |
| Oedolyn | Wyt ti'n taro'r drwm yn ysgafn? |
| Plentyn | Ydw. |
| Oedolyn | Ydy'r drwm yn gwneud sŵn cryf? |
| Plentyn | Nac ydy. |
| Oedolyn | Nac ydy, achos rwyt ti'n taro'r drwm yn ysgafn. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth ydy hwn? |
| Josh | Seiloffon. |
| Oedolyn | Da iawn, Josh.  Pa liw ydy'r seiloffon? |
| Josh | Coch. |
| Oedolyn | Da iawn. Wyt ti eisiau chwarae'r seiloffon coch? |
| Josh | Ydw. |
| Oedolyn | Sut mae chwarae'r seiloffon? |
| Josh | Taro'r nodau. |
| Oedolyn | Ie, taro'r nodau un ar y tro.  I fyny ... i lawr. |

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth ydy hwn? |
| Plentyn | Triongl. |
| Oedolyn | Sawl triongl sy yn y bocs? |
| Plentyn | Un, dau, tri, pedwar. |
| Oedolyn | Da iawn.  Mae pedwar triongl yn y bocs.  Wyt ti eisiau chwarae'r triongl? |
| Plentyn | Ydw. |
| Oedolyn | Wyt ti'n chwarae'r triongl yn dawel? |
| Plentyn | Nac ydw. |
| Oedolyn | Wyt ti'n chwarae'r triongl yn gryf? |
| Plentyn | Ydw, dw i'n chwarae'r triongl yn gryf. |




Darllenwch 5 llinell gyntaf *Tician y Cloc* gan Non ap Emlyn allan o'r gyfrol *Sgram!*
Clapiwch rythm y geiriau.
Dewiswch offerynnau.  Defnyddiwch yr offerynnau i daro rhythm y geiriau.

****

Rhowch gylch o gwmpas yr offerynnau plastig.

****

Tynnwch lun yr offerynnau chwythu.

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Chwarae Gemau



| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| cerdyn (g) / cardiau | *card/ s* |
| cownter (g) / i | *counter / s* |
| dis (g) | *dice* |
| nesa | *next* |
| tro | *turn* |
| i fyny | *up* |
| i lawr | *down* |
| pâr | *pair* |

Gadewch i ni chwarae gêm.
*Let's play a game.*

| **Paratoi** | ***Preparation*** |
|---|---|
| Pwy sy eisiau chwarae gêm? | *Who wants to play a game?* |
| Wyt ti eisiau chwarae snap? | *Do you want to play snap?* |
| Ydych chi eisiau chwarae? | *Do you want to play?* |
| Ble mae'r cardiau? | *Where are the cards?* |

| **Offer** | ***Equipment*** |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Dis ydy e / o. | *What's this? It's a dice.* |
| Pa liw ydy'r cownter? Glas. | *What colour is the counter? Blue.* |
| Sawl gêm sy yn y bocs? | *How many games are in the box?* |
| Oes dis yn y bocs? Oes / Nac oes | *Is there a dice in the box? Yes / No* |

| **Gemau bwrdd** | ***Board games*** |
|---|---|
| jig-so | *jig-saw* |
| teuluoedd hapus | *happy families* |
| loto | *lotto* |
| nadredd ac ysgolion | *snakes and ladders* |
| parau | *pairs* |

| **Berfau** | ***Verbs*** |
|---|---|
| colli | *to loose* |
| cyfrif | *to count* |
| chwarae | *to play* |
| dechrau | *to start* |
| ennill | to win |
| gorffen | *to finish* |
| rhoi | *to give / put* |
| symud | *to move* |
| taflu | *to throw* |

| | |
|---|---|
| Oes pâr 'da ti?<br>Oes gen ti bâr? | *Have you got a pair?* |
| Does dim pâr 'da Rhys.<br>Does dim pâr gan Rhys. | *Rhys hasn't got a pair.* |

| **Iaith chwarae** | ***Language of play*** |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n chwarae ... | *I'm playing ...* |
| Pwy sy'n dechrau? Fi. | *Who's starting? Me.* |
| Pwy sy nesa? Sam. | *Who's next? Sam.* |
| Tro pwy nesa? Fy nhro i nesa. | *Whose turn next? My turn next.* |
| Pa rif ydy hwn? Tri. | *What number is this? Three.* |
| Pa rif sy ar y dis? | *What number is on the dice?* |
| Sam yn gyntaf. | *Sam first.* |
| Ga i'r cownter? Cei / Na chei | *May I have the counter? Yes / No* |
| Ydych chi'n barod? Ydw / Nac ydw | *Are you ready? Yes / No* |

| **Cyfarwyddiadau** | ***Instructions*** |
|---|---|
| Cyfrwch efo / 'da fi. | *Count with me.* |
| Symudwch y cownter ymlaen. | *Move the counter on.* |
| Tafla'r dis. | *Throw the dice.* |
| Rho'r cownter ar y llun. | *Put the counter on the picture.* |

| | |
|---|---|
| fy nhro i | *my turn* |
| dy dro di | *your turn* |
| tro Macs | *Macs' turn* |
| tro arall | *another turn* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

### Beth sy ar goll?

Rhowch bedwar llun ar y bwrdd.
Dywedwch 'Caewch eich llygaid' wrth y plant.
Tynnwch un llun i ffwrdd.
Dywedwch 'Agorwch eich llygaid' wrth y plant.
Gofynnwch 'Beth sy ar goll?'
Y plant i ddweud pa lun sy ar goll.

| | |
|---|---|
| Beth sy ar goll? | *What's missing?* |
| Caewch eich llygaid. | *Close your eyes.* |
| Agorwch eich llygaid. | *Open your eyes.* |
| Dim pipo. | *No peeping.* |

### Sgwrs 1

| | |
|---|---|
| P1 | Beth wyt ti eisiau chwarae? |
| P2 | Dw i eisiau chwarae snap. |
| P1 | Iawn. Ble mae'r cardiau? |
| P2 | Dyma nhw – ar y silff. |
| P1 | Da iawn. Pwy sy'n dechrau? |
| P2 | Ann sy'n dechrau. |
| P1 | Iawn. Tro Ann yn gyntaf. |

### Sgwrs 2

| | |
|---|---|
| P1 | Rydyn ni'n mynd i chwarae 'Beth sy ar goll?' |
| P2 | Hwrê! Dw i'n hoffi 'Beth sy ar goll?' |
| P1 | Edrychwch ar y lluniau. Beth sy yn y lluniau? |
| P2 | Pêl, tedi, cap, beic. |
| P1 | Da iawn. Nawr, caewch eich llygaid ... dim pipo ... agorwch eich llygaid ... Beth sy ar goll? |
| P2 | Tedi! |
| P1 | Ie, da iawn. Tedi sy ar goll. |




### Sgwrs 3

| | |
|---|---|
| P1 | Gadewch i ni chwarae nadredd ac ysgolion. Ble mae'r cownteri? |
| Nia | Dyma nhw – yn y bocs. |
| P1 | Da iawn. Pa liw ydy'r cownteri? |
| Pawb | Coch, melyn, glas, gwyrdd. |
| P1 | Da iawn. Un i fi, un coch i Jac, cownter melyn i Nia ac un glas i Sara. Sara'n gyntaf. Tafla'r dis Sara. Pa rif sy ar y dis? |
| Sara | Pump. |
| P1 | Cyfrwch 'da fi / efo fi. |
| Pawb | Un, dau ... pump. |
| P1 | Tro pwy nesa? |
| Jac | Fy nhro i nesa. |
| P1 | Da iawn, Jac. Tafla'r dis. Pa rif sy ar y dis? |
| Jac | Pedwar |
| P1 | Da iawn. Symuda'r cownter. |
| Pawb | Un, dau, tri, pedwar. |
| P1 | Pwy sy nesa? |
| Sara | Nia. |



# Y Cyfnod Sylfaen:

# Chwarae Rôl



## Geirfa — *Vocabulary*

| Geirfa | *Vocabulary* |
|---|---|
|  cogydd | cook |
|  gwisg (b) | *uniform* |
|  menyw / dynes / dyn tân | *firefighter* |
|  nyrs | nurse |
|  plismon | *police officer* |
|  ysbyty (g) | *hospital* |
| Dyma chi. | *Here you are.* |

| **Berfau** | ***Verbs*** |
|---|---|
| gwisgo i fyny (NW) | *to dress up* |
| gwisgo lan (SW) | *to dress up* |
| helpu | *to help* |
| prynu | *to buy* |
| i weithio fel ... | *to work like ...* |

| **Arian** | ***Money*** |
|---|---|
| ceiniog | *1p* |
| deg ceiniog | *10p* |
| dau ddeg ceiniog | *20p* |
| tri deg ceiniog | *30p* |
| pedwar deg ceiniog | *40p* |
| pum deg ceiniog | *50p* |
| chwe deg ceiniog | *60p* |
| saith deg ceiniog | *70p* |
| wyth deg ceiniog | *80p* |
| naw deg ceiniog | *90p* |
| punt | *£1* |

| **Paratoi** | ***Preparation*** |
|---|---|
| Pwy wyt ti heddiw? | *Who are you today?* |
| Beth am chwarae ysbyty? | *What about playing hospital?* |
| Ble wyt ti'n gweithio heddiw? | *Where are you working today?* |
| Rhaid gwisgo welis i weithio fel dyn tân. | *(You) must wear wellies to work as a firefighter.* |
| Beth am wisgo fel plismon? | *What about dressing like a policeman?* |

| **Offer** | ***Equipment*** |
|---|---|
| Oes gwisg nyrs yn y bocs? Oes / Nac oes | *Is there a nurse's uniform in the box? Yes / No* |
| Ble mae dillad y cogydd? | *Where's the cook's clothes?* |

| **Iaith chwarae** | ***Language of play*** |
|---|---|
| Ga i ...? Cei / Na chei (*sing*) Cewch / Na chewch (*pl*) | *May I ...? Yes you may / No you may not.* |
| Beth wyt ti eisiau? (*sing*) Beth ydych chi eisiau? (*pl*) | *What do you (sing) want?* |
| Dw i eisiau stamp os gwelwch yn dda. | *I want a stamp please.* |
| Faint wyt ti eisiau? | *How many do you want?* |
| Dau os gwelwch yn dda. | *Two please.* |
| Faint ydy'r ... ? | *How much is the ... ?* |
| Oes ... 'da ti / 'da chi? Oes / Nac oes (*SW*) | *Have you got ...? Yes / No* |
| Oes gen ti ... / gennych chi ? | *Have you got ...?* |
| Oes / Nac oes *(NW)* | *Yes / No* |
| Wyt ti eisiau... ? (*sing*) Ydych chi eisiau...? (*pl*) | *Do you want...?* |
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n gweithio yn y siop. | *I'm working in the shop.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Chwarae Rôl

**Cân (Tôn: *London Bridge is falling down)***

Dewch i chwarae gyda ni /efo ni
Gyda ni / Efo ni x 2
Dewch i chwarae gyda ni / efo ni,
Yn yr ysgol.

Dewch i siopa gyda ni / efo ni
Gyda ni / Efo ni x 2
Dewch i siopa gyda ni / efo ni,
Yn y pentref.

Dewch i chwarae tŷ bach twt,
Tŷ bach twt x 2
Dewch i chwarae tŷ bach twt.
Amser chwarae.

Dewch i'r caffi gyda ni / efo ni
Gyda ni / Efo ni x 2
Dewch i'r caffi gyda ni / efo ni,
I gael diod.

**Sgwrs 1**
**Yn yr ysgol**

| | |
|---|---|
| P1 | Pwy sy eisiau chwarae ysgol? |
| P2 | Fi! |
| P3 | A fi, a Mostyn. |
| P2 | Mae Doli a Tedi yn yr ysgol hefyd. |
| P1 | Fi ydy'r athrawes. Pwy sy yn yr ysgol heddiw? Mostyn? |
| P3 | Yma. |
| P1 | Doli? |
| P2 | Yma. |
| P1 | Tedi? |
| P3 | Yma. |
| P1 | Carys? |
| P2 | Mae Carys yn absennol. |
| P1 | O, dyna drueni. |

**Sgwrs 2**
**Yn y siop deganau**

| | |
|---|---|
| P1 | Bore da. Ga i helpu? |
| P2 | Dw i eisiau lori os gwelwch yn dda. |
| P1 | Dyma chi. |
| P2 | Diolch. |
| P1 | Rhywbeth arall? |
| P2 | Na, dim diolch. Faint ydy'r lori? |
| P1 | Punt os gwelwch yn dda. |
| P2 | Dyma'r arian. |
| P1 | Diolch. Hwyl fawr. |
| P2 | Hwyl. |

**Sgwrs 3**
**Yn y tŷ bach twt**

| | |
|---|---|
| P1 | Beth wyt ti'n wneud? |
| P2 | Dw i'n paratoi brecwast. |
| P1 | Ga i helpu? |
| P2 | Cei. Rhaid rhoi'r llestri ar y bwrdd. |
| P1 | Iawn. Sawl cwpan a soser? |
| P2 | Dau - un i ti ac un i fi. Rhaid cael llwy hefyd. |
| P1 | Dw i eisiau tost. Rhaid cael plât. |
| P2 | Oes, a rhaid cael cyllell. |
| P1 | Oes menyn a marmalêd ar y bwrdd? |
| P2 | Oes, a llaeth a siwgr i'r te. |
| P1 | Da iawn. Rydyn ni'n barod nawr. |
| P2 | Mmm ... brecwast blasus. |
| P1 | Diolch yn fawr. |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:
## Crefft

| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| botwm (g) / botymau | *button / s* |
| brat (g) /iau NW | *apron / s* |
| brws paent (g) brwsys paent | *paint brush / es* |
| cerdyn (g) / cardiau | *card / s* |
| clai (g) | *clay / plasticine* |
| ffedog (b) / au SW | *apron / s* |
| glud (g) | *glue* |
| igam-ogam | *zigzag* |
| llawes (b) / llewys | *sleeve / s* |
| lliw (g) | *colour* |
| model (g) | *model* |
| papur (g) / au | *paper* |
| papur gludiog (g) | *sticky paper* |
| papur rhychiog (g) | *corrugated paper* |
| papur sidan (g) | *tissue paper* |
| patrwm (g) | *pattern* |
| plât papur (g) / platiau papur | *paper plate / s* |
| plu | *feathers* |
| rhuban (g) / rhubanau | *ribbon / s* |
| sbwng (g) | *sponge* |
| secwins | *sequins* |
| sinc (g) | *sink* |
| siswrn (g) / sisyrnau | *scissors* |
| toes (g) | *dough* |




| Berfau | Verbs |
|---|---|
| cymysgu | *to mix* |
| defnyddio | *to use* |
| gludo | *to stick* |
| gwneud | *to do / make* |
| jync | *junk* |
| peintio | *to paint* |
| plygu | *to fold* |
| torri | *to cut* |

| Paratoi | Preparation |
|---|---|
| Ydych chi eisiau tynnu llun? | *Do you want to draw a picture?* |
| Pwy sy eisiau gwneud pili-pala? | *Who wants to make a butterfly?* |
| Wyt ti eisiau gwneud model? | *Do you want to make a model?* |
| Ble mae'r brat? | *Where is the apron?* |
| Beth sy eisiau i wneud tŷ? | *What (do we) need to make a house?* |

| Offer | Equipment |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Siswrn ydy e / o. | *What's this? It's a scissors.* |
| Ble mae'r glud? Mae e / o ar y silff. | *Where's the glue? It's on the shelf.* |
| Dyma'r papur gludiog. | *Here's the sticky paper.* |
| Ydy'r cerdyn pinc yn y bocs? | *Is the pink card in the box?* |
| Ydy / Nac ydy | *Yes / No* |
| Ga i'r secwins os gwelwch yn dda? Cei. | *May I have the sequins please? Yes.* |

| Iaith chwarae | Language of play |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud?<br>Dw i'n gwneud garej. | *What are you making?*<br>*I'm making a garage.* |
| Beth ydych chi'n wneud?<br>Rydyn ni'n peintio'r tŷ. | *What are you doing?*<br>*We're painting the house.* |
| Pa liw ydy'r gliter?<br>Sawl botwm sy yn y bocs? | *What colour is the glitter?*<br>*How many buttons are there in the box?* |
| Rhowch y clai yn y bocs. | *Put the clay in the box.* |
| Gwnewch batrwm igam-ogam. | *Make a zigzag pattern.* |
| Dw i eisiau gwneud blodyn. | *I want to make a flower.* |
| Pa liw ydy'r toes? | *Which colour is the dough?* |
| Beth ydy'r patrwm? | *What's the pattern?* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Crefft

**Sgwrs 1**
**Gwneud het**

Oedolyn Beth wyt ti'n wneud?
Plentyn Het.
Oedolyn Beth wyt ti'n ddefnyddio i wneud het?
Plentyn Dw i'n defnyddio plât papur, rhuban, plu a secwins.
Oedolyn Da iawn. Pa liw ydy'r rhuban?
Plentyn Coch.
Oedolyn Ie. Pa liw ydy'r secwins?
Plentyn Glas a melyn.
Oedolyn Da iawn. Mae'r het yn hyfryd.

**Cân (Tôn: Frère Jacques)**

Ble mae'r secwins?
Ble mae'r secwins?
Yn y bocs, yn y bocs.
D'wedwch ble mae'r secwins,
D'wedwch ble mae'r secwins.
Yn y bocs, yn y bocs.

Ble mae'r rhuban?
Ar y bwrdd.

Ble mae'r botwm?
Ar y llawr.

Ble mae'r papur?
Ar y silff.

**Sgwrs 2**
**Gwneud ffrwythau**

Oedolyn Beth wyt ti'n wneud?
Plentyn Dw i'n cymysgu'r toes.
Oedolyn Beth wyt ti'n wneud efo'r toes / 'da'r toes?
Plentyn Dw i'n gwneud oren, banana ac afal.
Oedolyn Sawl oren sy ar y plât?
Plentyn Tri.
Oedolyn Pa liw ydy'r afal?
Plentyn Coch.
Oedolyn Da iawn.

**Sgwrs 3**
**Cerdyn pen-blwydd i Mam**

Oedolyn Beth ydych chi'n mynd i wneud?
Plentyn Rydyn ni'n mynd i wneud cerdyn pen-blwydd.
Oedolyn Beth ydych chi'n mynd i ddefnyddio?
Plentyn Cerdyn melyn.
Plentyn Dw i eisiau defnyddio papur sidan coch.
Plentyn Ie, blodau o bapur sidan coch.
Oedolyn A beth am y dail?
Plentyn Dw i eisiau defnyddio papur rhychiog i wneud y dail.
Oedolyn Dim ond papur rhychiog gwyn sy yn yr ysgol.
Plentyn Rhaid peintio'r papur yn wyrdd.
Plentyn Rhaid cael glud i ludo'r blodau a'r dail ar y cerdyn.
Plentyn A gliter. Dw i eisiau rhoi calon o gliter ar y cerdyn hefyd.
Oedolyn Pa liw ydy'r gliter?
Plentyn Calon gliter pinc.
Oedolyn Da iawn, blant.

| | |
|---|---|
| blodau | *flowers* |
| calon | *heart* |
| dail | *leaves* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Cyn ysgrifennu



| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| clai (g) | *clay / plasticine* |
| ewyn (g) | *foam* |
| gliter (g) | *glitter* |
| llythyren (b) | *letter* |
| mwd (g) | *mud* |
| paent (g) | *paint* |
| toes (g) | *dough* |
| tywod (g) | *sand* |
| creon (g) / au | *crayon / s* |
| papur (g) / au | *paper / s* |
| pensil (g) / iau | *pencil / s* |
| pen ffelt (g) / peniau ffelt | *felt pen / s* |
| rhuban (g) | *ribbon* |
| sialc (g) | *chalk* |
| awyr (g) | *air* |
| igam-ogam | *zigzag* |

| **Berfau** | ***Verbs*** |
|---|---|
| ffurfio | *to form* |
| gwneud | *to do / make* |
| rhoi | *to put* |
| symud | *to move* |
| teimlo | *to feel* |
| ysgrifennu | *to write* |

| **Cyfarwyddiadau** | | ***Instructions*** |
|---|---|---|
| **unigol *(sing)*** | **lluosog *(plu)*** | |
| Cer *(SW)*<br>Dos *(NW)* | Ewch | *Go* |
| Ffurfia | Ffurfiwch | *Form* |
| Gwna | *Gwnewch* | *Do / Make* |
| Rho | *Rhowch* | *Put* |
| Symud | *Symudwch* | *Move* |

| **Paratoi** | ***Preparation*** |
|---|---|
| Pwy sy eisiau ysgrifennu? | *Who wants to write?* |
| Wyt ti eisiau ysgrifennu yn y mwd? | *Do you want to write in the mud?* |
| Pawb yn barod? | *Everyone ready?* |

| **Offer** | ***Equipment*** |
|---|---|
| Ble mae'r papur? | *Where's the paper?* |

| **Iaith chwarae** | ***Language of play*** |
|---|---|
| Pa lythyren ydy hon? | *What letter is this?* |
| Ewch dros y llythyren. | *Go over the letter.* |
| Ewch dros eich enw.<br>Dw i'n mynd dros fy enw. | *Go over your name.*<br>*I'm going over my name.* |
| Symud dy fys dros y patrwm igam-ogam. | *Move your finger over the zigzag pattern.* |
| Rho'r peli clai dros lythrennau dy enw. | *Put the plasticine balls over your name.* |
| Gwnewch 'a' yn y gliter. | *Make an 'a' in the glitter.* |
| Teimla'r llythrennau. | *Feel the letters.* |
| Ble mae dechrau'r llythyren? | *Where does the letter start?* |
| Ble mae diwedd y llythyren? | *Where is the end of the letter?* |
| Ffurfia'r llythyren. | *Form the letter.* |
| Dw i'n gwneud 'd' yn y gliter. | *I'm making a 'd' in the glitter.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

| | |
|---|---|
| i fyny ac i lawr (NW) | up and down |
| lan a lawr (SW) | up and down |
| llinell / au syth | straight line / s |
| 'nôl ac ymlaen | backwards and forwards |
| o amgylch / rownd | around |

**Sgwrs 1**

P1 Beth wyt ti'n wneud?
P2 Ysgrifennu.
P1 Ble wyt ti'n ysgrifennu?
P2 Yn y tywod.
P1 Beth wyt ti'n ysgrifennu?
P2 Rhestr siopa.
P1 Da iawn.




**Sgwrs 2**

P1 Pwy sy'n ysgrifennu yn y mwd?
P2 Ben.
P1 Gwna 'B' am Ben. Nia, symud dy fys dros y llythyren 'B'.
P2 Dw i'n gwneud 'e' nawr.
P1 Da iawn. Beth sy nesa?
P2 'n'.
P1 Ie, gwna 'n' yn y mwd. B – e – n ... Ben. Da iawn.

**Sgwrs 3**

P1 Beth ydy'r patrwm?
Nia Igam-ogam.
P1 Da iawn. Ble mae'r patrwm yn dechrau? .... da iawn. Beth mae hwn yn ddweud?
Nia Nia.
P1 Ie, Nia. Ble mae dechrau'r enw? ... da iawn. Ble mae diwedd yr enw? ... da iawn. Wyt ti eisiau ysgrifennu dy enw Nia?
Nia Ydw.
P1 Ble wyt ti'n mynd i ysgrifennu dy enw?
Nia Yn y tywod.
P1 Pa lythyren sy gyntaf?
Nia N'
P1 Symud dy fys yn y tywod i wneud N. Beth nesa?
Nia 'i'
P1 Da iawn. a beth wedyn?
Nia 'a'
P1 Da iawn ... o amgylch, i fyny ac i lawr. Dyna ni... a ... Nia.



# Y Cyfnod Sylfaen:

## Dŵr



### Geirfa | Vocabulary

| | Geirfa | Vocabulary |
|---|---|---|
|  | ffedog (b) /au (SW) brat (m) / iau NW | *apron / s* |
|  | bwced (g) / i | *bucket / s* |
|  | twba dŵr (g) | *water tub* |
|  | twndis (g) | *funnel* |
|  | can dŵr (g) / caniau dŵr | *watering can / s* |
|  | carreg (b) / cerrig | *stone / s* |
|  | cwch (g) / cychod | *boat / s* |
|  | hwyaden blastig (b) | *plastic duck* |
|  | jwg (b) | *jug* |
|  | olwyn ddŵr (b) / olwynion dŵr | *water wheel / s* |
|  | pêl blastig (b) | *plastic ball* |
|  | pêl griced (b) | *cricket ball* |
|  | piben (b) / pibau | *pipe / s* |
|  | potel (b) / i | *bottle / s* |

| Disgrifio | *Describing* |
|---|---|
| caled | *hard* |
| gwag | *empty* |
| swigod | *bubbles* |
| i mewn i | *into* |
| tonnog | *wavy* |
| trwm | *heavy* |
| llawn | *full* |
| llonydd | *still* |
| ysgafn | *light* |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| arllwys (SW) / tywallt (NW) | *to pour* |
| arnofio | *to float* |
| cymysgu | *to mix* |
| digwydd | *to happen* |
| meddwl | *to think* |
| rhoi | *to put* |
| sblasio | *to splash* |
| suddo | *to sink* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Pwy sy eisiau chwarae yn y dŵr? | *Who wants to play in the water?* |
| Wyt ti eisiau chwarae yn y dŵr? | *Do you want to play in the water?* |
| Ydych chi eisiau chwarae? | *Do you want to play?* |
| Rhaid gwisgo ffedog. | *(You) must wear an apron.* |
| Rhaid codi llewys. | *(You) must push (your) sleeves up.* |
| Ble mae'r brat? | *Where is the apron?* |

| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Bwced ydy e / o. | *What is this? It's a bucket.* |
| Ble mae'r hwyaden blastig? | *Where's the plastic duck?* |
| Dyma'r olwyn ddŵr. | *Here's the water wheel.* |
| Ble mae'r jwg? | *Where's the jug?* |
| Beth sy yn y twba dŵr heddiw? | *What's in the water tub today?* |
| Pa liw ydy e / o? | *What colour is it?* |
| Sawl cwch sy ar y dŵr? | *How many boats are on the water?* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n arllwys dŵr drwy'r biben. | *I'm pouring water through the pipe.* |
| Beth ydych chi'n wneud? | *What are you doing?* |
| Rydyn ni'n tywallt y dŵr i mewn i'r bwced. | *We're pouring water into the bucket.* |
| Ydy'r garreg yn mynd i suddo? | *Is the stone going to sink?* |
| Ydy / Nac ydy | *Yes / No* |
| Oes swigod yn y dŵr heddiw? | *Are there bubbles in the water today?* |
| Oes / Nac oes | *Yes / No* |
| Ydy'r dŵr yn oer? Ydy / Nac ydy | *Is the water cold? Yes / No* |
| Pa liw ydy'r dŵr? Mae'r dŵr yn las. | *What colour is the water? The water is blue.* |
| Beth sy'n mynd i ddigwydd? | *What's going to happen?* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Dŵr



**Cân** (Tôn – London bridge is falling down)

Dewch i chwarae yn y dŵr,
Yn y dŵr, yn y dŵr.
Dewch i chwarae yn y dŵr,
Dewch i chwarae.

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Beth wyt ti eisiau wneud? |
| P2 | Chwarae yn y dŵr. |
| P1 | Iawn, rhaid gwisgo ffedog. |
| P2 | Beth sy yn y twba dŵr heddiw? |
| P1 | Hwyaden, pêl, bwced. |
| P2 | Da iawn. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Pa liw ydy'r dŵr? |
| P2 | Glas. |
| P1 | Ydy'r dŵr yn llonydd? |
| P2 | Ydy. |
| P1 | Ydy'r dŵr yn llonydd nawr? |
| P2 | Nac ydy, mae'r dŵr yn donnog. |
| P1 | Edrychwch. Pa liw ydy hwn? |
| P2 | Melyn. |
| P1 | Da iawn. Dw i'n rhoi'r lliw melyn yn y dŵr glas. Mae'r lliwiau'n cymysgu. Pa liw ydy'r dŵr nawr? |
| P2 | Gwyrdd. |
| P1 | Da iawn. Mae melyn a glas yn cymysgu ac yn gwneud gwyrdd. |

Beth ydy'r ddwy reol yn y dŵr?



Codi llewys.
Gwisgo ffedog.

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth sy yn y bocs heddiw? |
| Plant | Potel, pêl, hwyaden. |
| Oedolyn | Da iawn, potel, pêl a hwyaden blastig. Ydy'r botel yn llawn? |
| Plentyn | Nac ydy. |
| Oedolyn | Nac ydy, mae'r botel yn wag. Ydy'r botel yn drwm? |
| Plentyn | Nac ydy. |
| Oedolyn | Nac ydy, mae'r botel wag yn ysgafn. Mae Shaun yn mynd i roi'r botel ar y dŵr. Beth sy'n mynd i ddigwydd? |
| Plant | Mae'r botel yn suddo / arnofio. |
| Oedolyn | Shaun, rho'r botel ar y dŵr. Beth sy'n digwydd? |
| Plentyn | Mae'r botel yn arnofio. |
| Oedolyn | Nawr, dw i'n arllwys dŵr i mewn i'r botel. Ydy'r botel yn wag nawr? |
| Plentyn | Nac ydy, mae'r botel yn llawn dŵr nawr. |
| Oedolyn | Ydy'r botel yn drwm nawr? |
| Plentyn | Ydy. |
| Oedolyn | Mae Shaun yn mynd i roi'r botel ar y dŵr eto. Ydy'r botel yn mynd i suddo neu arnofio? |
| Plant | Mae'r botel yn suddo / arnofio. |
| Oedolyn | Shaun, rho'r botel ar y dŵr. Beth sy'n digwydd? |
| Plentyn | Mae'r botel yn arnofio. |
| Oedolyn | Da iawn chi blant. |

Tynnwch lun popeth sy'n goch.

Rhowch gylch o gwmpas popeth sy'n suddo.



Tynnwch lun popeth sy'n arnofio.

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Iaith darllen a thrafod llyfr



| Geirfa | | Vocabulary |
|---|---|---|
| | amser (g) | *time* |
| | arlunydd (g) / arlunwyr | *artist / s* |
| | awdur (g) / on | *author / s* |
| | clawr (g) / cloriau | *cover / s* |
| | cymeriad (g) / au | *character / s* |
| | lliw (g) / lliwiau | *colour /s* |
| | llun (g) / iau | *picture / s* |
| | llyfr (g) / au | *book / books* |
| | sach (g / b) / sachau | *sack / s* |
| | stori (b) / storïau | *story / stories* |
| | teitl (g) / au | *title / s* |
| | tudalen (b) /nau | *page / s* |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| darllen | *to read* |
| dewis | *to choose* |
| edrych ar | *to look at* |
| eisiau | *to want / need* |
| gorffen | *to finish* |
| hoffi | *to like* |

**Cân** (Tôn: Bing bong)

Dewch i eistedd ar y llawr,
Dewch i ddarllen stori nawr,
Dewch i edrych ar y lluniau,
Ac i wrando ar y geiriau.

Bing bong, bing bong be x 4

Pwy sy'n dewis llyfr heddi'?
Pwy sy eisiau darllen stori?
Beth am edrych ar y clawr?
Beth am ddarllen stori nawr?




| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Pwy sy eisiau darllen? | *Who wants to read?* |
| Ble mae'r llyfr? | *Where is the book?* |
| Pa lyfr heddiw? | *Which book today?* |
| Pa stori heddiw? | *Which story today?* |
| Pwy sy'n dewis llyfr heddiw? | *Who's choosing a book today?* |
| Pwy sy eisiau dewis sach stori? | *Who wants to choose a story sack?* |
| Dewch i edrych ar y llyfr. | *Come and look at the book.* |
| Dere / Tyrd i ddarllen y llyfr. | *Come to read the book.* |
| Ydych chi eisiau stori? | *Do you want a story?* |
| Wyt ti eisiau darllen llyfr? | *Do you want to read a book?* |
| Cer / Dos i nôl y llyfr. | *Go to fetch the book.* |
| Ewch i nôl sach. | *Go to fetch a sack.* |
| Dewch i eistedd ar y mat. | *Come to sit on the mat.* |
| Eisteddwch ar y carped. | *Sit on the carpet.* |
| Ydy pawb yn barod? | *Is everyone ready?* |

| Darllen | *Reading* |
|---|---|
| Gwranda ar y stori. | *Listen to the story.* |
| Edrychwch ar y llyfr 'da fi. | *Look at the book with me.* |
| Edrych ar y llyfr efo fi. | *Look at the book with me.* |
| Dw i'n mynd i ddarllen stori. | *I'm going to read a story.* |
| Rydyn ni'n mynd i ddarllen llyfr. | *We're going to read a book.* |
| Beth ydy teitl y llyfr? | *What's the title of the book?* |
| Dyma'r llyfr a dyma'r teitl. | *Here's the book and here's the title.* |
| Pwy ydy'r awdur? | *Who's the author?* |
| Edrych ar y clawr. | *Look at the cover.* |
| Beth sy ar y clawr? | *What's on the cover?* |
| Edrychwch ar y llun. | *Look at the picture.* |
| Pwy ydy'r arlunydd? | *Who's the artist?* |
| Trowch y dudalen. | *Turn the page.* |
| Tro'r dudalen. | *Turn the page.* |
| Diwedd y stori. | *The end of the story.* |
| Wedi gorffen. | *Finished.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

| Trafod | *Discussing* |
|---|---|
| Pwy sy yma? | *Who is here?* |
| Beth sy yma? | *What is here?* |
| Ble mae ...? | *Where is ...?* |
| Pa liw ydy hwn? | *What colour is this?* |
| Pa liw ydy ...? | *What colour is ...?* |
| Beth ydy hwn? | *What is this?* |
| Beth ydy'r rhain? | *What are these?* |
| Beth sy'n digwydd? | *What's happening?* |
| Beth sy'n digwydd yn y llun? | *What's happening in the picture?* |
| Beth sy'n digwydd yn y stori? | *What's happening in the story?* |
| Beth mae ... yn wneud? | *What's ... doing?* |
| Sawl ... sy yn y llun? | *How many ... are in the picture?* |

| **Mynegi barn** | ***Expressing opinion*** |
|---|---|
| Dw i'n hoffi'r llyfr. | *I like the book.* |
| Dw i'n hoffi'r stori. | *I like the story.* |
| Wyt ti'n hoffi'r llyfr?<br>Ydw / Nac ydw | *Do you like the book?*<br>*Yes / No* |
| Ydych chi'n hoffi'r llyfr?<br>Ydyn / Nac ydyn | *Do you like the book?*<br>*Yes / No* |
| Wyt ti'n hoffi'r lluniau?<br>Ydw / Nac ydw | *Do you like the pictures?*<br>*Yes / No* |
| Beth ydych chi'n hoffi yn y llyfr? | *What do you like in the book?* |
| Pwy wyt ti'n hoffi yn y stori? | *Who do you like in the story?* |
| Beth ydych chi'n hoffi yn y llyfr? | *What do you like in the book?* |
| Pwy wyt ti'n hoffi yn y stori?<br>Dw i'n hoffi'r stori achos mae Fflic a Fflac yn ddoniol. | *Who do you like in the story?*<br>*I like the story because Fflic and Fflac are funny.* |

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Pwy sy'n dewis llyfr heddiw? |
| P2 | Paul. |
| P1 | Pa stori wyt ti eisiau Paul? |
| P2 | *Tedi Twt ar y Fferm.* |
| P1 | Ble mae'r llyfr? |
| P2 | Dyma fe. |
| P1 | Diolch. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Pa lyfr heddiw blant? |
| P2 | *Snap! Snap!* |
| P1 | Dyma'r llyfr. Beth sy ar y clawr? |
| P2 | Llun cranc. |
| P1 | Ie, llun cranc. |
| P2 | Pwy sy yn y llun yma? (tudalen 3) |
| P1 | Fflic a Fflac. |
| P2 | Ie, ble mae Fflic a Fflac? |
| P1 | Ar lan y môr. |
| P1 | Da iawn. Mae Fflic a Fflac ar lan y môr. |

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| P1 | Wyt ti'n hoffi'r llyfr? |
| P2 | Ydw. |
| P1 | Pam wyt ti'n hoffi'r llyfr? |
| P2 | Dw i'n hoffi'r lluniau. |
| P1 | Wyt ti'n hoffi'r stori hefyd? |
| P2 | Ydw. |
| P1 | Pam? |
| P2 | Achos mae'r cranc yn cnoi Fflic a Fflac! |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Pobl sy'n ein helpu





**Geirfa** | ***Vocabulary***

| | | |
|---|---|---|
|  | ambiwlans (g) | *ambulance* |
|  | amlen (b) / ni | *envelope / s* |
|  | blwch postio (g) | *postbox* |
|  | brigâd dân (b) | *fire brigade* |
|  | car heddlu (g) | *police car* |
|  | cwch achub (g) | *lifeboat* |
|  | fan bost (b) | *mail-van* |
|  | heol (b) / ydd | *road / s* |
|  | injan dân (b) | *fire engine* |
|  | lori sbwriel (b) | *refuse / rubbish lorry* |
|  | llythyr (g) / on | *letter / s* |
|  | moddion / ffisig (g) | *medicine* |
|  | sbwriel (g) | *rubbish* |
|  | tabledi | *tablets* |
|  | ysbyty (b) | *hospital* |

| **Pobl** | ***People*** |
|---|---|
| cogydd / cogyddes | *cook* |
| doctor / meddyg | *doctor* |
| ffermwr | *farmer* |
| gofalwr / wraig | *caretaker* |
| mecanydd | *mechanic* |
| menyw / dynes / dyn ambiwlans | *ambulance paramedic* |
| menyw / dynes / dyn lolipop | *school crossing patrol* |
| menyw / dynes / dyn sbwriel | *rubbish collector* |
| menyw / dynes / dyn tân | *fire fighter* |
| nyrs | *nurse* |
| plismon | *police officer* |
| postmon | *postman* |

| **Berfau** | ***Verbs*** |
|---|---|
| casglu | *to collect* |
| croesi | *to cross* |
| glanhau | *to clean* |
| gweithio | *to work* |
| mynd â | *to take* |
| tyfu | *to grow* |

| **Paratoi** | ***Preparation*** |
|---|---|
| Pwy sy'n ein helpu ni? | *Who helps us?* |
| Mae'r ffermwr yn gwisgo welis. | *The farmer wears wellingtons.* |
| Beth am wisgo fel menyw ambiwlans? | *How about dressing like an ambulance paramedic?* |

| **Offer** | ***Equipment*** |
|---|---|
| Oes gwisg doctor yn y bocs? Oes / Nac oes. | *Is there a doctor's uniform in the box? Yes / No* |
| Ble mae dillad y dyn tân? | *Where's the fire fighter's uniform?* |

| **Iaith chwarae** | ***Language of play*** |
|---|---|
| Beth mae'r ffermwr yn wneud i helpu? | *What does the farmer do to help?* |
| Mae'r ffermwr yn tyfu bwyd i ni. | *The farmer grows food for us.* |
| Sut mae'r dyn sbwriel yn helpu? | *How does the refuse collector help?* |
| Mae e'n casglu'r sbwriel. | *He collects the rubbish.* |
| Beth ydy gwaith y gofalwr? | *What is the work of the caretaker?* |
| Mae'r gofalwr yn glanhau'r ysgol. | *The caretaker cleans the school.* |
| Beth ydy gwaith dyn lolipop? | *What is the job of a school crossing patrol?* |
| Mae dyn lolipop yn ein helpu ni i groesi'r heol. | *A school crossing patrol helps us to cross the road.* |
| Beth mae'r postmon yn wneud? | *What does the postman do?* |
| Mae'r postmon yn casglu'r llythyron o'r blwch postio. Wedyn, mae e'n mynd â'r llythyron o dŷ i dŷ. | *The postman collects the letters from the post box. Then he takes the letters from house to house.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Pobl sy'n ein helpu

**Cân: (Tôn Bobby Shaftoe)**
Postmon, plismon, menyw lolipop,
Nyrs a doctor a'r gofalwr,
Menyw / dynes sbwriel, cogydd, ffermwr,
Pobl sy'n ein helpu.

**Gemau**

Mae angen dwy set o gardiau gyda / efo lluniau arnynt fel a ganlyn

| **Set 1** | **Set 2** |
|---|---|
| postmon | blwch postio |
| dyn tân | injan dân |
| plismon | car heddlu |
| person yn coginio | dillad cogydd |
| person mewn cot wen | stethosgop |

Gallwch ychwanegu mwy o gardiau os ydych chi eisiau.

**Gêm 1**

1. Rhaid cymysgu'r cardiau.
2. Rhaid i'r plant osod y cardiau mewn parau addas, e.e. rhoi'r stethosgop wrth y llun o'r person yn y got wen (doctor).

**Gêm 2 (i grŵp o 3 – 4)**

1. Rhaid cymysgu'r cardiau a'u rhannu rhwng aelodau'r grŵp.
2. Rhaid i'r plant ofyn cwestiynau i'w gilydd er mwyn casglu parau o gardiau.
3. Dyma rai cwestiynau ac atebion addas.

| | |
|---|---|
| Ga i'r stethosgop os gwelwch yn dda? | Cei / Na chei. |
| Oes cogydd 'da ti? | Oes / Nac oes. |
| Oes gen ti injan dân? | Oes / Nac oes. |
| Ydy'r dillad cogydd gen ti? | Ydy / Nac ydy. |
| Ydy'r plismon 'da ti? | Ydy / Nac ydy. |
| Wyt ti eisiau'r postmon? | Ydw / Nac ydw. |

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Pwy sy'n gweithio yn yr ysbyty? |
| P2 | Nyrs. |
| P3 | Mae meddyg yn gweithio yn yr ysbyty hefyd. |
| P1 | Ydy. Da iawn. Beth mae'r postmon yn wneud? |
| P2 | Mae'r postmon yn dod â'r llythyr i'r tŷ yn y bore. |
| P1 | Ydy, beth arall mae'r postmon yn wneud? |
| P3 | Casglu'r llythyron o'r blwch postio. |
| P1 | Da iawn. Beth am y dyn sbwriel? |
| P2 | Mae e'n / o'n casglu'r sbwriel. |
| P1 | Da iawn. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Mae llawer o bobl yn helpu yn yr ysgol. Pwy ydyn nhw? |
| P3 | Athrawes. |
| P2 | Dynes / Menyw lolipop. |
| P3 | Gofalwr. |
| P1 | Ie, da iawn. Beth mae'r gofalwr yn wneud? |
| P2 | Glanhau'r ysgol. |
| P1 | Ie, beth arall? |
| P2 | Agor y drws yn y bore. |
| P1 | Da iawn. Hefyd, mae'r gofalwr yn cloi'r drws *(to lock the door)* yn y nos. Oes rhywun arall yn helpu yn yr ysgol? |
| P2 | Cogydd. |
| P1 | Ie, beth mae'r cogydd yn wneud? |
| P3 | Gwneud cinio. |
| P1 | Da iawn. Mae'r cogydd yn gwneud bwyd neis i'r plant. |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Rhif




### Rhifau

| | |
|---|---|
| un | 1 |
| dau | 2 |
| tri | 3 |
| pedwar | 4 |
| pump | 5 |
| chwech | 6 |
| saith | 7 |
| wyth | 8 |
| naw | 9 |
| deg | 10 |
| un deg un | 11 |
| un deg dau | 12 |
| un deg tri | 13 |
| un deg pedwar | 14 |
| un deg pump | 15 |
| un deg chwech | 16 |
| un deg saith | 17 |
| un deg wyth | 18 |
| un deg naw | 19 |
| dau ddeg | 20 |
| dau ddeg un | 21 |
| tri deg | 30 |
| pedwar deg | 40 |
| pum deg | 50 |
| chwe deg | 60 |
| saith deg | 70 |
| wyth deg | 80 |
| naw deg | 90 |
| cant | 100 |
| mil | 1000 |
| miliwn | 1000000 |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Wyt ti eisiau chwarae loto rhif? | *Do you want to play number lotto?* |
| Pwy sy eisiau chwarae bingo? | *Who wants to play bingo?* |

| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| Ble mae'r sgwâr cant? | *Where's the hundred square?* |
| Oes cownteri yn y bocs? | *Are there any counters in the box?* |

| Geirfa | *Vocabulary* |
|---|---|
| cownter (g) / i | *counter / s* |
| chwarter | *a quarter* |
| digid (g) / au | *digit / s* |
| hanner | *half* |
| nesa | *next* |
| ar ôl | *after* |
| cyn | *before* |
| llai | *less* |
| lleiaf | *least* |
| mwy | *more* |
| mwyaf | *most* |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| adio | *to add* |
| lluosi | *to multiply* |
| rhannu | *to share / divide* |
| tynnu | *to subtract* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Pa rif ydy hwn? | *What number is this?* |
| Pa rif sy nesa? | *What number is next?* |
| Beth sy nesa? | *What's next?* |
| Pa rif sy'n dod ar ôl dau? | *What number comes after two?* |
| Sawl pensil sy ar y bwrdd? | *How many pencils are there on the table?* |
| Beth ydy dau a dau? | *How much is two and two?* |
| Beth ydy pedwar adio tri? | *How much is four add three?* |
| Beth ydy deg tynnu wyth? | *How much is ten take away eight?* |
| Beth ydy hanner pedwar? | *How much is half of four?* |
| Faint o flociau? | *How many blocks?* |
| Cyfrwch 'da fi / efo fi. | *Count with me.* |
| Sawl digid? | *How many digits?* |
| Faint yn fwy na dau ydy pedwar? | *How many more than two is four?* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Rhif

**Cân Tôn: (*Ten green bottles*)**

Pump mochyn bach yn rowlio yn y mwd,
Pump mochyn bach yn rowlio yn y mwd,
Aeth un mochyn bach i 'molchi yn y twb,
Dim ond pedwar mochyn bach yn rowlio yn y mwd.

Pedwar mochyn bach yn rowlio yn y mwd
Tri ...............
Dau ...............
Un ...............
Dim un mochyn bach yn rowlio yn y mwd.

**Tôn:** (Gweler **Mi Welais Jac y Do, Gwasg Gomer**)

Un bys i fyny, un bys i lawr,
Un bys i fyny, un bys i lawr.

Dau fys ...
Tri bys ....

**Tôn:** (***Bobby Shaftoe***)

Un a dau a tri banana
4 a 5 a 6 banana
7 a 8 a 9 banana
10 banana melyn.

**How many?**
Sawl + singular noun,
**e.g. Sawl bloc?**

Faint o + plural noun
+ soft mutation, **e.g.**
**Faint o flociau?**

**Sawl un?** ***How many?***

**Sawl un sy yma?**

**Sawl un sy 'da ti / gen ti nawr?**

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Faint ydy dau adio dau? |
| Plentyn | Pedwar. |
| Oedolyn | Da iawn. Faint ydy hanner wyth? |
| Plentyn | Pedwar. |
| Oedolyn | Da iawn. Faint ydy chwarter wyth? |
| Plentyn | Dau. |
| Oedolyn | Faint ydy dau tynnu dau? |
| Plentyn | Dim! |
| Oedolyn | Ardderchog, blant. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Sali, sawl car glas sy ar y bwrdd? |
| Plentyn | Un, dau, tri, pedwar. |
| Oedolyn | Da iawn – pedwar car glas. Rho'r ceir glas yn y cylch. Da iawn. Wil, sawl car melyn sy ar y bwrdd? |
| Plentyn | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| Oedolyn | Da iawn. Mae pum car melyn ar y bwrdd. Nawr, rho'r ceir melyn yn y cylch. Sawl car sy yn y cylch nawr? |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw. |
| Oedolyn | Da iawn. Mae naw car yn y cylch. Gwen, tynna un car i ffwrdd. Faint o geir sy yn y cylch nawr? |
| Plentyn | Un , dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth. |
| Oedolyn | Ie, da iawn, blant. |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Siâp



| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| siâp (g) / siapiau | *shape / s* |
| cylch (g) / oedd | |
| hanner cylch (g) | |
| petryal (g) | |
| seren (b) / sêr | |
| sgwâr (g) / sgwariau | |
| triongl (g) / au | |
| pentagon (g) | |
| hecsagon (g) | |
| octagon (g) | |
| sffêr (g) | |
| côn (g) | |
| ciwb (g) | |
| ciwboid (g) | |
| pyramid (g) | |
| silindr (g) | |



| Rhifau | |
|---|---|
| un | 1 |
| dau | 2 |
| tri | 3 |
| pedwar | 4 |
| pump | 5 |
| chwech | 6 |
| saith | 7 |
| wyth | 8 |
| naw | 9 |
| deg | 10 |

| | |
|---|---|
| bach | *small* |
| cornel (b) | *corner* |
| crwn | *round* |
| chwarter (g) | *quarter* |
| hanner (g) | *half* |
| matsio | *to match* |
| mawr | *big* |
| ochr (b) | *side* |
| syth | *straight* |
| wyneb (b) | *face* |
| ymyl (g / b) | *edge* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Wyt ti eisiau chwarae loto siapiau? | *Do you want to play shapes lotto?* |
| Pwy sy eisiau chwarae gêm y pyramidiau? | *Who wants to play the pyramids game?* |

| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| Ble mae'r octagon? | *Where's the octagon?* |
| Oes hecsagon yn y cwpwrdd? | *Is there a hexagon in the cupboard?* |
| Dyma'r triongl. | *Here's the triangle.* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Sgwâr ydy e / o. | *What's this? It's a square.* |
| Dyma hecsagon. | *Here's a hexagon.* |
| Pa liw ydy e / o? Coch ydy e / o. | *What colour is it? It's red.* |
| Pa siâp ydy hwn? | *What shape is this?* |
| Hanner cylch ydy e / o. | *It's a semi-circle.* |
| Seren ydy hon? Ie / Nage | Is this a star? Yes / No |
| Oes cylch coch 'da ti? / Oes gen ti gylch coch? | *Have you got a red circle?* |
| Oes / Nac oes | *Yes / No* |
| Sawl pyramid sy yn y llun? | *How many pyramids are in the picture?* |
| Mae un petryal yn y llun. | *There's one rectangle in the picture.* |
| Pa siâp sy ar y dis? Pentagon. | *What shape is on the dice? A pentagon.* |
| Sawl ochr sy 'da'r octagon? | *How many sides has an octagon?* |
| Sawl cornel sy gan y sgwâr? | *How many corners has a square?* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Siâp

*Allan o Ffrindiau gan Valmai Williams*
*Pecyn a CD: www.curiad.co.uk*

Llygaid bach effro,
Dwedwch i mi,
Pa siâp, tybed, ydwyf i?
Crwn, crwn yn siŵr i chi.
Sgwâr
Triongl
Petryal
(Gwnewch y siâp gyda'ch dwylo.)

**Cân (Tôn: The farmer's in his den.)**

Petra petryal 'dw i x 2
Hei ho, di hei di ho
Paul petryal 'dw i

Hefyd...

Sam sgwâr ydw i...
Tim triongl 'dw i...
Cai cylch ydw i ...
Pam pentagon 'dw i ...
Haf hecsagon 'dw i ...
Os octagon 'dw i ...

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Pa siâp ydy hwn? |
| Plentyn | Sgwâr. |
| Oedolyn | Da iawn. Pa liw ydy'r sgwâr? |
| Plentyn | Glas. |
| Oedolyn | Ie, sgwâr glas ydy e / o. Beth ydy hwn? |
| Plant | Hecsagon. |
| Oedolyn | Ie, hecsagon. Da iawn, blant. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Pa siâp ydy'r pitsa? |
| Plentyn 1 | Cylch. |
| Oedolyn | Dw i'n torri'r pitsa. Pa siâp nawr? |
| Plentyn 2 | Hanner cylch. |
| Oedolyn | Da iawn. Mae dau hanner cylch ar y plât nawr. Wyt ti eisiau pitsa, Elin? |
| Plentyn 3 | Ydw, os gwelwch yn dda. |
| Oedolyn | Dw i eisiau pitsa hefyd. Rhaid torri'r pitsa eto. Sawl darn o pitsa sy ar y plât nawr? |
| Plentyn 4 | Un, dau, tri, pedwar. |
| Oedolyn | Ie. Mae pedwar darn o pitsa ar y plât. Chwarter i ti Elin, chwarter i ti Tom, chwarter i ti, Rhys a chwarter i fi. Mmm neis iawn. |

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth ydy hwn? |
| Plentyn | Pentagon. |
| Oedolyn | Sawl ochr sy 'da'r / gan y pentagon? Cyfrwch 'da / efo fi. |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| Oedolyn | Da iawn. Mae pum ochr 'da'r / efo'r pentagon. Sawl ochr sy 'da / gan hwn? Cyfrwch 'da / efo fi. |
| Plant | Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth. |
| Oedolyn | Wyth ochr. Beth ydy e /o? |
| Plentyn | Octagon. |
| Oedolyn | Ie, octagon. Mae wyth ochr 'da'r / gan yr octagon. |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

# Symud



## Geirfa | *Vocabulary*

| Cyfarwyddiadau | *Instructions* |
|---|---|
| Cerddwch | Walk |
| Clapiwch | Clap |
| Daliwch | Catch |
| Dawnsiwch | Dance |
| Dilynwch fi | Follow me |
| Dringwch | Climb |
| Ewch | Go |
| Herciwch | Hop |
| Neidiwch | Jump |
| Rhedwch | Run |
| Rholiwch | Roll |
| Sefwch | Stand |
| Sgipiwch | Skip |
| Stampiwch | Stamp |
| Stopiwch | Stop |
| Taflwch | Throw |
| Trowch | Turn |
| bag ffa (g) / bagiau ffa | bean bag / s |
| pêl (b) / i | ball / s |
| cawr (g) | giant |
| pont (b) / ydd | bridge / s |
| ymlaen | forward |
| yn araf | slowly |
| yn gyflym | quickly |
| yn ôl | backwards |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| cerdded | *to walk* |
| clapio | *to clap* |
| cropian | *to crawl* |
| dawnsio | *to dance* |
| dilyn | *to follow* |
| dringo | *to climb* |
| hercio | *to hop* |
| neidio | *to jump* |
| rhedeg | *to run* |
| sgipio | *to skip* |
| stopio | *to stop* |
| taflu | *to throw* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Pwy sy eisiau dawnsio? | *Who wants to dance?* |
| Wyt ti eisiau rhedeg? | *Do you want to run?* |
| Ydych chi eisiau chwarae? | *Do you want to play?* |
| Ble mae'r bag ffa? | *Where's the bean bag?* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud?<br>Dw i'n cerdded fel eliffant. | *What are you doing?*<br>*I'm walking like an elephant.* |
| Symudwch fel ...<br>Symudwch fel pili pala.<br>Sut mae pili pala'n symud?<br>Fel hyn. | *Move like a ...*<br>*Move like a butterfly.*<br>*How does a butterfly move?*<br>*Like this.* |
| Cerddwch fel cawr.<br>Dw i'n cerdded fel cawr. Dw i'n gwneud camau mawr. | *Walk like a giant.*<br>*I'm walking like a giant. I'm making big steps.* |
| Sefwch fel delw. | *Stand like a statue.* |
| Eisteddwch yn llonydd. | *Sit still.* |
| Pwy sy'n cropian drwy'r twnel? | *Who's crawling through the tunnel?* |
| Wyt ti eisiau dawnsio?<br>Ydw / Nac ydw | *Do you want to dance?*<br>*Yes / No* |
| Wyt ti'n cerdded yn araf? Ydw / Nac ydw | *Are you walking slowly? Yes / No* |
| Taflwch y bêl.<br>Daliwch y bêl.<br>Rholiwch y bêl. | *Throw the ball.*<br>*Catch the ball.*<br>*Roll the ball.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Symud

**Cân**

**Jac y Do** (Tôn: The Grand Old Duke of York)

Mi welais Jac y do,
Yn eistedd ar y to,
Het wen ar ei ben
A dwy goes bren,
Ho-ho-ho-ho-ho-ho.

**Sgwrs 1**

P1 Beth wyt ti eisiau wneud?
P2 Dw i eisiau symud fel dinosor.
P1 Iawn. Sut mae dinosor yn symud?
P2 Fel hyn.
P2 Da iawn.

**Sgwrs 2**

P1 Beth ydych chi eisiau wneud?
P2 Rydyn ni eisiau chwarae pêl.
P1 Ble mae'r bêl?
P2 Yn y bocs.
P1 Da iawn. Pa liw ydy'r bêl?
P2 Coch.
P1 Ie, mae'r bêl goch yn y bocs. Pwy sy eisiau taflu'r bêl?
P2 Fi.
P1 A phwy sy'n mynd i ddal y bêl?
P2 Fi.
P1 Da iawn.

**Dawns Jac y Do** (Tôn: The Grand Old Duke of York)

Manylion am ddawnsfeydd gwerin - http://www.welshfolkdance.org.uk

Ymlaen ...dau, tri, pedwar
Yn ôl ... dau, tri, pedwar
Ymlaen ... dau, tri, ... saith, wyth ... trowch
Ymlaen ... dau, tri, pedwar
Yn ôl ... dau, tri, pedwar
Ymlaen ... dau, tri, ... saith, wyth ... trowch
Sgipiwch ...
Clapiwch ...
Pont ...
Sgipiwch ...




Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

## TGCh





| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| argraffydd (g) | *printer* |
| camera digidol (g) | *digital camera* |
| cyfrifiadur (g) | *computer* |
| disg (b) | *disk* |
| llygoden (b) | *mouse* |
| papur (g) | *paper* |
| sgôr (g) | *score* |
| sgrin (b) | *screen* |

| | |
|---|---|
| bwlch | *space* |
| gair / geiriau | *word / s* |
| sgôr | *score* |

| Berfau | *Verbs* | Cyfarwyddiadau unigol (*sing*) | | *Instructions* lluosog (*pl*) |
|---|---|---|---|---|
| argraffu | *to print* | Argraffa | Argraffwch | *Print* |
| clicio | *to click* | Clicia | Cliciwch | *Click* |
| chwarae | *to play* | Chwaraea | Chwaraewch | *Play* |
| dechrau | *to switch on* | Dechreua | Dechreuwch | *Start /Switch on* |
| diffodd | *to switch off* | Diffodda | Diffoddwch | *Switch off* |
| gollwng | *to drop* | Gollynga | Gollyngwch | *Drop* |
| llusgo | *to drag* | Llusga | Llusgwch | *Drag* |
| pwyso | *to press* | Pwysa | Pwyswch | *Press* |
| teipio | *to type* | Teipia | Teipiwch | *Type* |
| trefnu | *to arrange* | Trefna | Trefnwch | *Arrange* |
| tynnu llun | *to draw a picture* | Tynna lun | Tynnwch lun | *Draw a picture* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Pwy sy eisiau chwarae ar y cyfrifiadur? | *Who wants to play on the computer?* |
| Ydych chi eisiau chwarae ar y cyfrifiadur? | *Do you want to play on the computer?* |
| Wyt ti wedi dechrau'r cyfrifiadur? | *Have you switched on the computer?* |
| Ydw / Nac ydw | *Yes / No* |

| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Camera digidol ydy e. | *What's this? It's a digital camera.* |
| Ble mae'r argraffydd? | *Where's the printer?* |
| Oes papur yn yr argraffydd? | *Is there paper in the printer?* |
| Oes / Nac oes | *Yes / No* |
| Sawl disg sy ar y bwrdd? | *How many disks are on the table?* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n chwarae gêm ar y cyfrifiadur. | *I'm playing a game on the computer.* |
| Pa gêm wyt ti'n chwarae? | *What game are you playing?* |
| Dw i'n chwarae Rhes Pedwar. | *I'm playing Connect Four.* |
| Beth ydych chi'n wneud? | *What are you doing?* |
| Rydyn ni'n tynnu llun ar y cyfrifiadur. | *We're drawing a picture on the computer.* |
| Ydych chi eisiau argraffu'r llun? | *Do you want to print the picture?* |
| Ydyn / Nac ydyn | *Yes / No* |
| Wyt ti'n hoffi chwarae ar y cyfrifiadur? Ydw / Nac ydw | *Do you like to play on the computer?* *Yes / No* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: TGCh

**Cân** (Tôn: Polly put the kettle on)

Clic, clic, clic, dewch i chwarae,
Clic, clic, clic, dewch i chwarae,
Clic, clic, clic, dewch i chwarae,
Ar y cyfrifiadur.

Clic, clic, clic, pwyso'r botwm,

Clic, clic, clic, tynnu lluniau,

Clic, clic, clic, llusgo bocsys,

Clic, clic, clic, gollwng geiriau,

Clic, clic, clic, teipio llythyr,

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Beth wyt ti'n wneud? |
| P2 | Dw i'n argraffu llun. |
| P1 | Beth sy yn y llun? |
| P2 | Tedi Twt. |
| P1 | Pa liwiau sy yn y llun? |
| P2 | Oren, glas, gwyrdd a gwyn. |
| P1 | Da iawn. Diffodda'r cyfrifiadur a'r argraffydd nawr. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Wyt ti eisiau chwarae ar y cyfrifiadur? |
| P2 | Ydw. Dw i'n dechrau'r cyfrifiadur. |
| P1 | Pa gêm wyt ti eisiau chwarae? |
| P2 | Swigod. |
| P1 | Mae'r swigod yn lliwgar. Pa liwiau ydy'r swigod? |
| P2 | Coch, glas, melyn, porffor a gwyrdd. |
| P1 | Da iawn. Faint o swigod sy ar y sgrin nawr? |
| P2 | Dau ddeg. |
| P1 | Sawl swigen goch sy ar y sgrin? |
| P2 | Pump. |
| P1 | Da iawn. Faint ydy dy sgôr di? |
| P2 | Cant dau ddeg. |
| P1 | Da iawn. |

**Trefnwch y geiriau..**

**Teipiwch yn y bwlch..**

**Llusgwch a gollyngwch y llun.**



Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:

# Tywod





## Geirfa / *Vocabulary*



| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| bwced (g) / i | *bucket / s* |
| castell tywod (g) | *sandcastle* |
| cragen (b) / cregyn | *shell / s* |
| ffedog (b) /au | *apron / s (SW)* |
| brat (g) / iau | *apron / s (NW)* |
| jwg (b) | *jug* |
| llwy (b) / au | *spoon / s* |
| piben (b) / pibau | *pipe / s* |
| potel (b) / i | *bottle / s* |
| rhaca (m) | *rake* |
| rhaw (b) | *spade* |
| rhidyll (g) | *sifter* |
| twba tywod (g) | *sand-tub* |
| twndis (g) | *funnel* |

| Disgrifio | *Describing* |
|---|---|
| gwag | *empty* |
| gwlyb | *wet* |
| llawn | *full* |
| sych | *dry* |
| trwm | *heavy* |
| trwy | *through* |
| ysgafn | *light* |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| adeiladu | *to build* |
| arllwys / tywallt | *to pour* |
| cymysgu | *to mix* |
| defnyddio | *to use* |
| digwydd | *to happen* |
| gwneud | *to do / make* |
| rhoi | *to put* |
| teimlo | *to feel* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Pwy sy eisiau chwarae yn y tywod? | *Who wants to play in the sand?* |
| Wyt ti eisiau chwarae yn y tywod? | *Do you want to play in the sand?* |
| Ydych chi eisiau chwarae? | *Do you want to play?* |
| Rhaid gwisgo ffedog. | *(You) must wear an apron.* |
| Ble mae'r brat? | *Where is the apron?* |

| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| Beth ydy hwn? Bwced ydy e / o. | *What is this? It's a bucket.* |
| Ble mae'r rhaw? | *Where's the spade?* |
| Dyma'r rhaca. | *Here's the rake.* |
| Ble mae'r rhidyll? | *Where's the sifter?* |
| Beth sy yn y tywod? | *What's in the sand?* |
| Pa liw ydy e? | *What colour is it?* |
| Sawl cragen sy yn y tywod? | *How many shells are there in the sand?* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n ysgrifennu yn y tywod. | *I'm writing in the sand.* |
| Beth ydych chi'n wneud? | *What are you doing?* |
| Rydyn ni'n rhoi'r tywod yn y bwced. | *We're putting the sand in the bucket.* |
| Dw i'n adeiladu castell tywod. | *I'm building a sandcastle.* |
| Rydyn ni'n gwneud cacen i de. | *We're making a cake for tea.* |
| Oes cregyn yn y tywod heddiw? | *Are there shells in the sand today?* |
| Oes / Nac oes | *Yes / No* |
| Ydy'r tywod yn sych? | *Is the sand dry?* |
| Ydy / Nac ydy | *Yes / No* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Tywod

**Cân** (Tôn - Clementine)

Dewch i'r tywod, dewch i'r tywod,
Dewch i'r tywod i gael sbri.
Dewch i chwarae yn y tywod,
Dewch i chwarae gyda ni.

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Beth sy yn y tywod heddiw? |
| P2 | Bwced, rhaw, rhidyll. |
| P1 | Da iawn. Pa liw ydy'r bwced? |
| P2 | Glas. |
| P1 | Ie, bwced glas. |
| P2 | Beth sy yn y bwced? |
| P1 | Cragen. |
| P2 | Da iawn. |

**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Ydy'r tywod yn sych heddiw? |
| P2 | Nac ydy. |
| P1 | Nac ydy. Mae'r tywod yn wlyb. |
| P2 | Jac, beth wyt ti'n wneud yn y tywod gwlyb? |
| Alaw | Ysgrifennu. |
| P2 | Da iawn. Alaw, beth wyt ti'n wneud? |
| Alaw | Castell tywod. |
| P2 | Da iawn, blant. |

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| Oedolyn | Beth ydy hwn? |
| Plentyn | Rhaw. |
| Oedolyn | Ie, rhaw. Beth ydy hwn? |
| Plentyn | Rhidyll. |
| Oedolyn | Da iawn. Defnyddia'r rhaw i roi'r tywod yn y rhidyll. Beth sy'n digwydd? |
| Plentyn | Mae'r tywod yn mynd trwy'r rhidyll. |
| Oedolyn | Oes potel yn y twba tywod? |
| Plentyn | Oes, dyma'r botel. |
| Oedolyn | Rhowch y dŵr yn y botel. Arllwyswch y dŵr ar y tywod. Nawr, sut mae'r tywod yn teimlo? |
| Plentyn | Mae'r tywod yn wlyb. |
| Oedolyn | Defnyddia'r rhaw i roi'r tywod gwlyb ar y rhidyll. Nawr, beth sy'n digwydd? |
| Plentyn | Dim byd! |
| Oedolyn | Ydy'r tywod gwlyb yn mynd trwy'r rhidyll? |
| Plentyn | Nac ydy. |
| Oedolyn | Ydy'r tywod sych yn mynd drwy'r rhidyll? |
| Plentyn | Ydy. |
| Oedolyn | Da iawn, blant. |

Beth ydy'r ddwy reol yn y tywod?
Gwisgo ffedog.
Codi llewys.

Rhowch y.....coch gyda'i gilydd.

Rhifwch gyda fi.




Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen:
# Yn yr ardd



## Geirfa Vocabulary

| | | |
|---|---|---|
|  | Betsan Brysur | *Busy Lizzie* |
|  | blodau'r haul | *sun flowers* |
|  | dŵr | *water* |
|  | hedyn (g) / hadau | *seed / s* |
|  | pot (g) / iau | *pot / s* |
|  | pridd | *soil* |
| | tu allan (NW) | *outside* |
| | tu fas (SW) | *outside* |

| Disgrifio | *Describing* |
|---|---|
| yn fach | *small* |
| yn fawr | *big* |
| yn sych | *dry* |
| yn wlyb | *wet* |
| yr un fath | *the same* |
| llond llaw | *handful* |
| hwn (g) | *this* |
| hon (b) | *this* |
| rhain | *these* |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| arogli | *to smell* |
| blodeuo | *to flower* |
| chwarae | *to play* |
| edrych | to look |
| gwisgo | *to wear* |
| hau | *to sow* |
| plannu | *to plant* |
| rhoi | *to put* |
| teimlo | *to feel* |
| tyfu | *to grow* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Pwy sy eisiau chwarae tu fas? | *Who wants to play outside?* |
| Wyt ti eisiau chwarae tu allan? | *Do you want to play outside?* |
| Ble wyt ti eisiau chwarae heddiw? | *Where do you want to play today?* |
| Rhaid gwisgo cot i fynd mas / allan. | *(You) must wear a coat to go outside.* |
| Gwisga dy got. | *Wear your coat. (sing)* |
| Gwisgwch eich cotiau. | *Wear your coat. (pl)* |
| Ble mae'r welis? | *Where are the wellies?* |

| Offer | *Equipment* |
|---|---|
| Ble mae'r potiau? | *Where are the pots?* |
| Beth sy yn y pridd? | *What's in the soil?* |
| Dyma'r hadau. | *Here are the seeds.* |

| Iaith chwarae | *Language of play* |
|---|---|
| Beth wyt ti'n wneud? | *What are you doing?* |
| Dw i'n rhoi pridd yn y pot. | *I'm putting soil in the pot.* |
| Ydy'r pridd yn wlyb neu'n sych? | *Is the soil wet or dry?* |
| Mae'r pridd yn sych. | *The soil is dry.* |
| Wyt ti'n rhoi'r hadau yn y pridd? Ydw / Nac ydw | *Are you putting the seeds in the soil? Yes / No* |
| Oes eisiau dŵr ar yr hadau? Oes / Nac oes | *Do the seeds need water? Yes / No* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

**Cân** (Tôn: Polly put the kettle on)

Dewch i hau yr hadau bach,
Hadau bach, hadau bach,
Dewch i hau yr hadau bach,
Yn y potiau.

Nawr mae'r blodau'n tyfu'n dal,
Tyfu'n dal, tyfu'n dal,
Nawr mae'r blodau'n tyfu'n dal,
Yn y potiau.

Rhaid rhoi dŵr i'r hadau bach,
Hadau bach, hadau bach,
Rhaid rhoi dŵr i'r hadau bach,
Yn y potiau.

Blodau melyn, coch a gwyn,
Coch a gwyn, coch a gwyn,
Blodau melyn, coch a gwyn.
Yn y potiau.

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Wyt ti eisiau mynd allan i chwarae? |
| P2 | Ydw. |
| P1 | Rhaid gwisgo cot a welis. Ble mae'r welis? |
| P2 | O dan y peg. |
| P1 | Dyma nhw. |




**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Pwy sy eisiau mynd allan i'r ardd heddiw? |
| Plant | Fi! Fi! |
| P1 | Da iawn. Rydyn ni'n mynd i hau hadau heddiw. Beth ydy'r rhain? |
| P2 | Potiau. |
| P1 | Pa liw ydy'r potiau? |
| P2 | Glas. |
| P1 | Da iawn. Beth ydy'r rhain? |
| P2 | Hadau. |
| P1 | Ydy'r hadau i gyd yr un fath? |
| P2 | Nac ydyn. |
| P1 | Nac ydyn, mae rhai yn fawr ac mae rhai yn fach. Edrychwch, dyma hadau blodau'r haul. Ydyn nhw'n fach neu'n fawr? |
| P2 | Maen nhw'n fawr. |
| P1 | Dyma hadau Betsan Brysur. Ydyn nhw'n fach neu'n fawr? |
| P2 | Maen nhw'n fach. |
| P1 | Nawr, rhaid rhoi pridd yn y potiau. Sawl llond llaw i'r pot bach? Cyfrwch gyda /efo fi. |
| P2 | Un, dau, tri, pedwar, pump. |
| P1 | Da iawn. Pum llond llaw. Ydyn ni'n mynd i roi blodau'r haul neu Betsan Brysur yn y pot bach? |
| P2 | Betsan Brysur. |
| P1 | Pam? |
| P2 | Achos mae'r hadau'n fach. |

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Yn yr awyr agored





| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| beic (g) | *bike* |
| beic tair olwyn (g) | *three wheeler bike* |
| blociau | *blocks* |
| bwced (g) | *bucket* |
| cerrig | *stones* |
| den (g) | *den* |
| ffrâm ddringo | *climbing frame* |
| lori (b) | *lorry* |
| llithren (b) | *slide* |
| ogof (b) | *cave* |
| pabell (b) | *tent* |
| pibell (b) | *pipe* |
| siglen (b) | *swing* |
| si-so (g) | *see-saw* |
| tractor (g) | *tractor* |
| trelar (g) | *trailer* |
| trychfilod | *insects* |

| Berfau | Verbs |
|---|---|
| adeiladu | *to build* |
| croesi'r ffordd | *to cross the road* |
| cuddio | *to hide* |
| defnyddio | *to use* |
| dod | *to come* |
| llenwi | *to fill* |
| mynd allan / mynd mas | *to go out* |
| mynd i mewn | *to go in* |
| araf | *slow* |
| cyflym | *fast* |
| llawn | *full* |
| mwya araf | *slowest* |
| mwya cyflym | *fastest* |

| Paratoi | Preparation |
|---|---|
| Pwy sy eisiau chwarae tu allan? | *Who wants to play outside?* |
| Wyt ti eisiau mynd mas? | *Do you want to go out?* |
| Ydych chi eisiau gwneud den? | *Do you want to make a den?* |
| Rhaid gwisgo cot. | *(You) must wear a coat.* |
| Rhaid gwisgo cap a defnyddio eli haul. | *(You) must wear a cap and use sun cream.* |

| Offer | Equipment |
|---|---|
| Beth ydy hwn? | *What is this?* |
| Ewch i nôl y beiciau o'r sied. | *Fetch the bikes from the shed.* |
| Ble mae'r blociau mawr? | *Where are the big blocks?* |
| Sawl car sy yn y garej heddiw? | *How many cars are in the garage today?* |
| Dyma'r tractor a'r trelar. | *Here is the tractor and trailer.* |
| Pa liw ydy'r llithren? | *What colour is the slide?* |

| Iaith chwarae | Language of play |
|---|---|
| Pwy sy'n mynd ar y ffrâm ddringo gyntaf? | *Who's going on the climbing frame first?* |
| Beth wyt ti eisiau wneud? | *What do you want to do?* |
| Dw i eisiau mynd ar y siglen. | *I want to go on the swing.* |
| Beth ydych chi'n wneud? | *What are you doing?* |
| Rydyn ni'n chwilio am y trychfilod. | *We're looking for the insects.* |
| Wyt ti'n cuddio? | *Are you hiding?* |
| Ydw, dw i'n cuddio yn yr ogof. | *Yes, I'm hiding in the cave.* |
| Ydy'r car yn mynd yn gyflym?<br>Ydy / Nac ydy | *Is the car going quickly?*<br>*Yes / No* |
| Pa gar ydy'r mwya cyflym?<br>Y car gwyrdd. | *Which car is the fastest?*<br>*The green car.* |
| Rhowch y teganau i gadw. | *Put the toys away.* |

Yn ôl i'r dudalen gynnwys

# Y Cyfnod Sylfaen: Yn yr awyr agored



**Yn y parc** gan Mair Elwyn
'Nôl a mlaen ar y siglen,
Yna tro ar y llithren.
I fyny'r grisiau un, dau, tri,
Eistedd yn ofalus a lawr â ni.

**Sgwrs 1**

| | |
|---|---|
| P1 | Beth wyt ti'n wneud? |
| P2 | Dw i'n golchi'r car. |
| P1 | Ble mae'r bwced? |
| P2 | Dyma fe. |
| P1 | Pa liw ydy'r bwced? |
| P2 | Glas. |
| P1 | Da iawn. |




**Sgwrs 2**

| | |
|---|---|
| P1 | Rydyn ni'n mynd i wneud pabell heddiw. |
| P2 | Beth wyt ti'n ddefnyddio? |
| P1 | Lliain bwrdd. |
| P2 | Wyt ti'n clymu'r lliain yn sownd i'r ffens? |
| P1 | Ydw. |
| P2 | O ie, y lliain ydy'r to? |
| P1 | Ie, to'r sied. |

| | |
|---|---|
| cynfas | *sheet* |
| llenni | *curtains* |
| lliain bwrdd | *tablecloth* |

**Sgwrs 3**

| | |
|---|---|
| P1 | Dw i'n mynd ar y beic. |
| P2 | Ble wyt ti'n mynd? |
| P1 | Dw i'n mynd i siopa. |
| P2 | Sut wyt ti'n mynd? |
| P1 | Syth ymlaen ac wedyn troi i'r dde. |
| P2 | Da iawn. Beth am y goleuadau traffig? |
| P1 | Rhaid aros wrth y goleuadau. |
| P2 | Oes, mae'r golau'n goch. |
| P1 | Golau oren nawr ... barod i fynd... |
| P2 | Edrych, mae'r golau'n wyrdd. Rwyt ti'n gallu mynd nawr. |
| P1 | Syth ymlaen eto. |
| P2 | Ble wyt ti'n parcio? |
| P1 | Wrth y siop. |
| P2 | Da iawn. |

| | |
|---|---|
| trowch i'r dde | *turn right* |
| trowch i'r chwith | *turn left* |
| ewch nôl | *go back* |
| ewch yn syth ymlaen | *go straight ahead* |



Arhoswch.

Byddwch yn barod i fynd.

Ewch.